

Yn y rhifyn hwn
Atodiad arbennig
RAS YR WYDDFA
yn 30 oed

Marc Lloyd Williams yn gobeithio gadael ei farc ar Anfield

BYDD un o bêl-droedwyr y fro yn chwarae yn erbyn mawrion tim pêl-droed Lerpwl yn ystod y mis yma.

I ddilynwyr y bêl gron yn yr ardal, mae'r enw Marc Lloyd Williams yn un cyfarwydd iawn. Mae'r hogyn o Lanberis wedi bod yn troedio caeau pêl-droed y fro ers yn blentyn, ac roedd ei ddawn o sgorio goliau yn amlwg pan yn chwarae i dîm ei bentref ac i Ysgol Brynrefail. Ers hynny mae wedi cael llwyddiant fel blaenwr i dimau Porthmadog, Bangor ac Aberystwyth.

Erbyn hyn mae'n chwarae i dim Total Network Solutions, Llansanffraid, ac yn paratoi i chwarae un o'r gemau pwysicaf yn ei yrfa - yn erbyn Lerpwl yn Anfield.

Bydd Marc 'Jiws' yn gobeithio cael y gorau ar chwaraewyr Lerpwl, fel Steven Gerrard a Jamie Carragher, gafodd eu coronni yn Bencampwyr Ewrop fis Mai eleni, ar ôl gêm fythgofiadwy yn erbyn AC Milan yn Istanbul.

Nawr mae'n rhaid i'r pencampwyr amddiffyn y gwpan - a'r tîm gafodd eu tynnu allan o'r het i chwarae yn eu herbyn yn rownd ragbrofol Cynghrair y Pencampwyr oedd Pencampwyr Cynghrair Cymru - TNS.



Llun: www.saints-alive.co.uk

Bydd y cymal cyntaf yn cael ei chwarae yn Anfield ar 13 Gorffennaf, a'r ail gymal yn digwydd ar y Cae Ras, Wrecsam, ar 19 neu 20 Gorffennaf.

Yn wreiddiol, roedd TNS wedi ystyried chwarae yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd, ond yr wythnos yma dywedodd perchennog, TNS, Mike Harris:

'Wedi ystyried yn ddwys, rydym yn hapus iawn i chwarae'r gêm yn Wrecsam.'

HB Torshavn o Ynysoedd y Faroe neu FBK Kaunas o Lithuania fydd gwrthwynebwyr yr enillwyr yn yr ail rownd.

Er mai'r tîm o lannau Merswy ydi'r ffefrynnau o bell ffordd, mae capten Lerpwl, Steve Gerrard, yn mynnu y bydd Pencampwyr Ewrop yn parchu TNS.

Pan dynnwyd yr enwau allan o'r het ar gyfer rownd ragbrofol gyntaf Cynghrair y Pencampwyr, roedd Lerpwl yn falch o osgoi taith hir.

'Roeddym eisiau tîm mor lleol â phosib ac rydym yn bles, o gofio'r llefydd y gallen ni fod wedi mynd,' meddai Gerrard. 'Rydym yn gwybod ein bod yn ffefrynnau, ond byddwn yn rhoi'r parch dyledus iddynt.'

Gobaith Marc Lloyd Williams ydi ennill mwy o barch gan Gerrard a'r tîm trwy greu digon o broblemau i amddiffynwyr Lerpwl. Pob lwc iddo.

Llun: www.saints-alive.co.uk



Steven Gerrard,
Capten Lerpwl.



ECO'R WYDDFA

RHIF 324

GORFFENNAF 2005

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Cefnogwch
ein Hysbysebwyrr

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, 22 AWST

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 1 MEDI

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cyswllt
MEDI	22 Awst	1 Medi	Dinorwig	Marian Jones (870292)

Llythyrau

Neuadd Glasgoed
LLANRUG

Annwyl Ddarllenwyd,
Yr Archifdy Cenedlaethol,
Kew, Richmond, TW9 4DU,
Swydd Surrey, Lloegr

Dyma ddau gwestiwn a
ofynnwyd i'r Archifdy
Cenedlaethol yn Kew, sefydliad
sy'n gwasanaethu Cymru a
Lloegr.

**Sawl arddangosfa a gynhelir
gennych mewn blwyddyn?**

Etyb Dr David Leitch,
Pennaeth Perfformiad a
Chyfathrebu'r AC (11 Chwefror,
2005): "Yn 2004, yr
arddangosfeydd a gynhaliwyd
gennym oedd 'The Secret State'
oedd yn ystyried paratoadau
Prydain am ryfel niwcliar... a
'Movers and Shakers', sef taith
hynod ddiddorol drwy fywydau
pobl flaenllaw ac arloesol y 750
mlynedd diwethaf, drwy gyfrwng
dogfennau a ddelir yn yr AC. (Gw.
<http://www.nationalarchives.gov.uk/events/calendar/movers.htm>)"
sy'n dweud y cyfan wrthym.
Cymru? Gwlad? Cenedl?

"Yr arddangosfeydd a
gynnulliwyd ar gyfer 2005 yw
'Captains, Pirates and Castaways'
yn dathlu dau ganmlwyddiant
Brwydr Trafalgar fel rhan o Sea
Britain 2005, ynghyd â llyfr ar
Capten Bligh a Chaptain Cook."

**Faint o'ch staff (y mae yno dros
400), sy'n siarad y Gymraeg,**

neu'n wybyddus â hanes
Cymru fel gwlad?

A'r ateb ar 17 Mawrth, 2005 gan
Dr David Leitch: "Mae gan o
leiaf dri aelod o'r staff yn yr
Archifau Cenedlaethol rywfaint o
wybodaeth o'r Gymraeg."

Erfyniaf arnoch i ysgrifennu at
rai o'r canlynol er mwyn dangos
y mawr angen am sefydlu
Archifdy Cenedlaethol yma yng
Nghymru, gan nad yw'r un yn
Kew yn ateb ein anghenion.

Alun Pugh AC, Y Gweinidog
dros Ddiwylliant, y Gymraeg a
Chwaraeon, Llywodraeth
Cynulliad Cymru, Bae
Caerdydd, CAERDYDD CF99
1NA. ffôn: (029 20) 825111;
ffacs: (0129 20) 898129;
neu Rhodri Morgan, yr un
cyfeiriad â'r uchod, ac
Arweinyddion y gwahanol
bleidiau gwleidyddol.
Diolch
Dafydd Guto

Bryn Dedwydd
8 Trefonwys
Bangor

Cofio Jane

Mi wn fod Cesail y Mynydd - yn oer
heddiw'n wag a llonydd,
atgofion cyfoedion fydd
yn llawn dagrau llawenydd

GERAINT JONES-EVANS,
Y RHYL

Roedd Geraint yn gyd-athro â
Jane yn Ysgol Emmanuel, Y
Rhyl, yn ystod y 60au. Mae'n
englynwr o fri ac anfonodd yr
englyn hwn i mi ar ôl ei
marwolaeth.

Bu Jane a minnau'n ffrindiau

mynwesol ers deugain mlynedd
a phump - ers cyfarfod yn
Emmanuel. Rwyf wedi gofyn ei
ganiatâd i'w roi yn eich papur
bro, y papur y bu hi'n gweithio
mor galed i'w gynnal.

Diolch yn fawr,

ENID ROBERTS

7 Victoria Road
Hen Golwyn
CONWY LL29 9SN

Annwyl Olygydd,

Cymdeithasau Hanes

Teuluoedd Gwynedd a Chlwyd
A fyddwch mor garedig â
chynnwys yr isod yn rhifyn
nesaf eich Papur Bro.

Ers y flwyddyn 2000 mae
Cymdeithasau Hanes Teulu-
oedd Gwynedd a Chlwyd wedi
cynnal Ffair Hel Achau yn y
Ganolfan, Theatr Gogledd
Cymru, Llandudno, bob mis
Medi. Yn anffodus oherwydd
newidiadau sydd ar y gweill yn
y Ganolfan mae'r ffair eleni, a
oedd i gymryd lle ar ddydd
Sadwrn, 3 Medi, wedi ei
chanslo.

Edrychwn ymlaen yn fawr
iawn i gynnal ein Ffair Hel
achau nesaf ar ddydd Sadwrn, 2
Medi, 2006.

Ar ran Pwyllgor Gwaith
Cymdeithasau Hanes Teulu-
oedd Gwynedd a Chlwyd,
diolch am eich cydweithrediad.
Yr eiddoch yn gywir
J. Bryan Jones

RHODDION

£20: Mrs Inigo Jones, Eilionwy,
Llanrug; Teulu y diweddar John
Andro Griffith, Bryn Awelon,
Rhiwen, Deiniolen; Mrs Megan
Price Morris, Minffordd, Dinorwig.

£10: Iwan Jones, Angorfa, Coed
y Glyn, Llanberis, a Mathew
Lloyd Roberts, Gilfach, Stryd
Goodman, Llanberis; Bet a
theulu y diweddar Robin Evans,
12 Hafod Olau, Deiniolen; Mr a
Mrs Emyln Jones, Kemand,
Ffordd Glanffynnon, Llanrug; Mrs
Eirwen Rowlands, Llys Forgan,
er cof am ei gŵr, John Rowlands.

£5: Menna Jones, 6 Stryd y
Ffynnon, Llanberis; Beryl Lewis,
3 Rhes Efrog, Llanberis; Eirian
Owen, Llandwrog (gynt o Ysgol
Dolbadarn); Ian, Josh a Luke,
Bury St. Edmunds; Margaret,
Gwenlli a Tegid, Porth Gogledd,
Deiniolen; Megan Hughes, 9
Rhes y Faenol, Llanberis; Mr a
Mrs Gwynedd Williams,
Waunfawr; S.O. a Mrs E.
Hughes, Hen Golwyn; Awen a
Janet, Bethel.

£6: Di-enw, Llanrug.

£4: Iolo Llewelyn.

£3: Melisa Roberts, Llanberis;
Betty Roberts, 26 Rhydfadog,
Deiniolen.

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

O Lanber i Vlieland

Am un o'r gloch fore dydd Iau, 2 Mehefin, cychwynnodd aelodau o Gôr Meibion Dyffryn Peris ar daith a oedd i brofi yn hynod anarferol. Y gyrchfan oedd Ynys Vlieland. Ynys fechan iawn (20 kilomedr o hyd a 2.5 kilomedr o led) yw Vlieland ac yn un o nifer o ynysyddau oddi ar arfordir gorllewinol yr Iseldiroedd, a adnabyddir fel Ynysydd y Frisian Wadden. Mae iddi hanes sy'n deillio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif ac yn adnabyddus fel gyrchfan i forwyr a physgotwyr morfilod. Mae iddi un dreflan - Oost Vlieland. Yno yr ymgartrefodd yr aelodau am bedwar diwrnod mewn dau westy bron gyferbyn â'i gilydd.

Roedd Jan van Houter a'i wraig, Erna, yn benderfynol o gael y côr i ymweld a pherfformio yn Vlieland. Clywsant y côr yn ymarfer yn y Mynydd Gwefru pan oeddynt yn aros gyda'u cyfeillion, y cerddor adnabyddus Dafydd Bullock ac Ulrika, yn Fachwen, a gwirionodd y ddau ar y seiniau. Gyda Aneuryn Jones ac Elwyn Jones yn trefnu'r daith fe wireddwyd breuddwyd Jan.

Roedd y croeso yn gynnes a diffuant. Cyhoeddodd Jan mai ychydig dros fil o drigolion oedd yn byw ar yr ynys, gyda phob un yn berchen beic! Ychydig iawn o geir oedd yno. Gan fod Vlieland erbyn hyn yn gyrchfan i ymwelwyr, penderfynodd Jan fuddsoddi mewn beiciau - roedd yn berchen ar 2,000 ohonynt! Cynigiodd feic i bob aelod o'r côr a'u gwragedd, a hynny yn ddi-gost. Dyna beth oedd bargaen ac fe fanteisiodd y mwyafrif ar y cynnig. Dyma'r côr cyntaf o Gymru i fynd dramor gyda'r aelodau'n dychwelyd yn flinedig a bloesg eu lleisiau ac yn dendar o

amgylch y penolau! Dim ond un neu ddau ddaeth oddi ar eu beiciau yn gymamerol ac yn y modd mwyaf anghonfensiynol. 'Pa fodd y cwmp y cewri!'

Cynhaliwyd un cyngerdd, un gwasanaeth eglwysig a nifer o gyngherddau answyddogol. Tyrrodd pobl oddi ar y stryd i Westy Golfzang i wrando ar y canu, ac yn eu plith ddau blismon y dref! Ymunodd y ddau gydag Elwyn ac Aneuryn i ganu y 'Two Gendarmes'! Anodd credu gweld dau blismon gyda gwên lydan yn ymuno yn y rhialtwch!

Profodd y ddau berfformiad swyddogol yn llwyddiant ysgubol, gyda'r dorf yn codi fel un i gymeradwyo a chrefu am fwy. Gwerthfawrogwyd hefyd gyfraniadau Lowri a Hefina.

Swynwyd y gynulleidfa a'r côr gan griw o'r ynyswyr yn canu caneuon y môr ac ar ôl terfynu'r cyngerdd, parhaodd y canu a'r cyfeillachu hyd oriau mân y bore.

Bydd ymweliad y côr â Vlieland yn aros ar femrwn y cof am amser maith. Bu'n gyfle i ymlacio ac i gymdeithasu a gwneud cyfeillion newydd. Does ond gobeithio y gall Côr Dyffryn Peris weld eu ffordd yn glir i wahodd 'Lleiswyr y Môr' o'u cynefin iseldirol i ucheldir Eryri fel y caiff trigolion Dyffryn Peris fwynhau a gwerthfawrogi eu diwylliant. Hir y pery'r cyswllt rhwng y ddwy ardal.

Dymuna aelodau Côr Dyffryn Peris ddiolch o waelod calon i nifer o gantorion Côr Dyffryn Nantlle a Chôr Dinas Bangor a ymunodd â hwynt ar y daith i atgyfnerthu'r seiniau a'r perfformiadau.

'Hen Ale' yn ymlacio gyda'r cerddor, Dafydd Bullock ac Ulrika, ei wraig.



Ymlacio yn Vlieland.



Y Côr.

O SIAMBAR SELWYN



Yr Archdderwydd Selwyn Iolen.

Rwy'n siŵr fod pawb a deithiodd i Brifwyl yr Urdd yng Nghaerdydd wedi cael eu plesio gyda'r cyfleusterau yn Theatr Canolfan y Mileniwm. Llongyfarchiadau i bawb o Fro'r Eco a fu'n llwyddiannus yn yr Wyl. Fe geir mwy o fanylion yn y rhifyn hwn, reit siŵr.

Os byw ac iach, erbyn i chi ddarllen hwn mi fydd Seremoni Cyhoeddi Prifwyl Abertawe 2006 wedi mynd heibio, ac fe allaf innau roi ochenaid o ryddhad fod y Gorseddu trosodd. Y cwestiynau a ofynnwyd i mi sawl tro yn ystod yr wythnosau diwethaf 'ma oedd: 'Sud 'da chi'n teimlo?' 'Ydach chi'n edrach ymlaen?' 'Sut ma'r nerfa?' Yn wir fe'm synnwyd fod cymaint yn cymryd diddordeb mewn gorseddu Archdderwydd, ac mae'n ddyletswydd arna i i ddiolch i bawb yn lleol ac i'r dwsinau a ddaeth ataf yn ystod Eisteddfod yr Urdd am eich dymuniadau da.

Gobeithio bod y cefnogwyr a ddaeth yr holl ffordd i Abertawe wedi dadflino ar ôl y penwythnos.

Geiriau Syr T. H. Parry-Williams sy'n mynnu cosi fy meddwl ar brydiau, yn enwedig o sylwi ar enwau'r enwogion sydd wedi llenwi'r swydd hon o ddyddiau Clwydfardd i Robyn Llŷn. Pa hawl sydd gen i i ddilyn y rhain? Dwi ddim yn ysgolhaig. Dim ond rhyw eisteddfodwr bach cyffredin ydw i, ac 'rwy'n dechrau simsanu braidd'.

Pregethwyr a gweinidogion enwog ydi'r rhan fwyaf o'r Cyn-Archdderwyddon. Mae yna dri cyfreithiwr wedi llenwi'r swydd a, hyd y gwelaf i, bedwar athro. Pan etholwyd fi, cefais lythyr gan

y Cyn-Archdderwydd Emrys Deudraeth, yn datgan mai 'eithriad yw ethol athro'. Emrys a finnau ydi'r unig ddau o gyn-ddisgyblion y Coleg Normal i gael yr anrhydedd, a chyddigwyddiad hefyd ydi mai Emrys oedd yr Archdderwydd pan enillais i'r Goron yn Llanrwst yn 1989. Roedd hi'n uchelgaais gennyf i ennill y Goron a chynigiais amdani sawl tro, a boddi yn ymyl y lan fwy nag unwaith. Ond wnes i erioed freuddwydio y byddwn i'n cael fy ethol yn Archdderwydd. Yn wir, onibai bod 'na nifer helaeth o eisteddfodwyr ffyddlon wedi gofyn caniatâd i gael fy enwebu, fyddwn i ddim wedi meddwl am y peth. Yn ystod yr etholiad y llynedd, wnes i ddim gofyn i'r un enaid byw am eu pleidlais, hyd yn oed i'r cyfeillion a oedd mor barod i arwyddo fy mhapur enwebu. Na, fe adewais y cyfan i drefn rhagluniaeth.

Un cwestiwn a ofynnwyd i mi yn ddiweddar oedd, 'Oes 'na Archdderwydd arall wedi cael ei eni a'i fagu ym Mro'r Eco?' Nag oes, ond mi fuo Dyfnallt yn weinidog ar Eglwys Ebeneser, Deiniolen o 1902 hyd 1905. Ymunodd â Gorsedd y Beirdd drwy arholiad yn 1895 ac yn 1907 enillodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe am ei bryddest 'Y Greal Sanctaidd'. Roedd yn bedwar ugain oed pan etholwyd o yn Archdderwydd yn y Rhyl yn 1953. Yn rhyfedd iawn, tra roedd o'n weinidog yn Neiniolen, fe ddaeth o'n ail am y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl yn 1904. Anodd coelio i Dyfnallt weithio yn y pwll glo ag yntau ddim ond yn 12 oed.

Wrth gwrs, rhaid cofio i Gwyndaf fod yn Bennaeth Adran Addysg Grefyddol Ysgol Brynrefail o 1957 hyd nes ymddeol yn 1978. Fe roddwn i unrhyw beth am gael llais fel un Gwyndaf am y tair blynedd nesa 'ma. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf i mi ymweld â hi rwy'n cofio'i weld yn cael ei gadeirio, yn ŵr ifanc, un ar hugain oed. Yr ieuenga 'rioed i ennill y Gadair Genedlaethol. Yn yr un eisteddfod (Caernarfon, 1935), roedd o'n ail am y Goron hefyd. Bu'n Archdderwydd o 1966 hyd 1969, ac yn Gofiadur yr Orsedd o 1970 hyd 1980.

Cwestiwn pryfoclyd arall a ofynnwyd i mi oedd: 'Beth fydd yr Archdderwydd yn ei wisgo o dan ei wisg laes gostus?' Wel, mae'n gyfrinach. Mor gyfrinachol â'r hyn mae'r Albanwr yn ei wisgo o dan ei gilt. Ond fe ddweda i hyn, cyn lleied ag sydd bosib, ond gofalu bod yn barchus. Rhag ofn.

Dyma'r tro olaf i mi eich gwahodd i'r Siambar cyn y

Steddfod. Gobeithiwn am Wyl lwyddiannus, tywydd braf (dim rhy boeth) a theilyngdod yn y prif seremonïau. Dioch unwaith eto am eich dymuniadau da. Gweddiad am nerth ac iechyd i gario allan fy nyletswyddau.

Mwynhewch yr Wyl ar Barc y Faenol.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

Silver
STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfôn am ddim i holl ardal Bro'r Eco**

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DIOLCHIADAU. Hoffai Iwan Jones, Angorfa, Coed y Glyn, a Mathew Lloyd Roberts, Gilfach, Stryd Goodman, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y llu cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd yn dilyn eu damwain ar 24 Mawrth. Hefyd, hoffai'r ddau deulu ddatgan gwerthfawrogiad mawr i'r gwasanaethau brys am bopeth a wnaed i'w hachub ac i staff Ysbyty Gwynedd am y gofal a'r driniaeth i'w gwella.

DYMUNA Daniel Orritt ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn naw oed ar 20 Mai.

HOFFAI Bessie, Ynys Wen, Clifford a Margaret, ddatgan eu diolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig pan fu Bessie yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 90 oed ar 5 Mehefin. Diolch am yr holl gardiau, yr anrhegion a'r blodau.

Diolch hefyd i staff Plas Garnedd, Bron Eryri, a fu ar

ddyletswydd ar y diwrnod ac am baratoi yr ystafell i bawb a ddaeth i fyny i ymweld â Bessie.

HOFFWN ddiolch i blant, cydweithwyr a chyn-gydweithwyr, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Dolbadarn, Llanberis, am eu caredigrwydd ar achlysur fy ymddeoliad o'r ysgol yn ddiweddar. Diolch hefyd am eich cyfeillgarwch a'ch cydweithrediad parod yn ystod y 15 mlynedd hapus y bŵm yn ddirprwy yn yr ysgol.

Dymunaf yn dda i chwi i gyd i'r dyfodol. Diolch o galon.

EIRIAN OWEN

LLONGYFARCHIADAU i Melisa Roberts ar fod yn llwyddiannus yn ei harholiadau *Pharmacy Technician*. Llauer o gariad oddi wrth y teulu i gyd a phawb yn Siop Chemist, Llanberis.

DYMUNA Menna Jones, 6 Stryd y Ffynnon, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac arian a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

LLONGYFARCHIADAU i Mari Wyn, 6 Rhes Fictoria, ar ennill Ysgoloriaeth o £2,000 yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar.

Hwyl fawr i ti oddi wrth y teulu pan fyddi'n perfformio mewn cyngerdd, ar 6 Awst, hefo Bryn Terfel yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Eryri yn y Faenol.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Dafydd, Gwaelod y Garth,



Caerdydd, ar ennill y Fedal Lenyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Mae Catrin yn wyres i Megan Hughes, 9 Rhes y Faenol, Llanberis.

YSGOL SUL CAPEL COCH. *Ddydd Sul, Mehefin 16* bu plant a rhieni'r Ysgol Sul am bicnic yn Gilfach Ddu. Cafwyd diwrnod tebyg y llynedd, ond eleni daeth Ysgol Sul Deiniolen (Ebeneser a Chefnysaun) yno hefyd. Roedd yn fore heulog braf wrth i bawb gychwyn cerdded i fyny'r llwybr at Ysbyty'r Chwarel. Wedi cyrraedd pen yr hen domen, cafwyd gwasanaeth byr i ddiolch am harddwch byd Duw. Yna mwynhaodd pawb ei bicnic yng ngwres yr haul. Ar ôl cinio cafodd y plant hwyl yn chwarae gemau oedd wedi eu trefnu gan Dafydd a Gethin Pritchard, a phawb yn mwynhau'r gemau parasiwt yn arbennig. Peidiwch â phoeni, wnaethon ni ddim anfon neb ar draws y llyn efo'r parasiwt!

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth yno, ac roedd yn dda gweld yn agos i 60 ohonom yn mwynhau cwmni a sgwrs. Bydd Trip yr Ysgol Sul yn mynd i Byd Gulliver yn Warrington ddydd Sadwrn, Gorffennaf 2.

Ddydd Sul, Gorffennaf 3, byddwn yn mynd â'r plant i Ysgol Tryfan, Bangor, lle bydd aelodau capeli ac Ysgolion Sul yn Arfon yn dod at ei gilydd i ddiwrnod a drefnir gan Mererid Williams, Gweithiwr Ieuentid yr Annibynnwyr yn Arfon. Bydd y bws yn cychwyn o Lanberis am 10.15 o'r gloch. Bydd angen dod â phicnic efo chi.

Y Sul canlynol, Gorffennaf 10, rhwng 2.00 a 5.00 o'r gloch cynhelir pnawn o hwyl a gemau yn Ysgol Brynrefail sydd wedi ei drefnu gan weithwyr ieuentid y Presbyteriaid yn Arfon.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn hynod o brysur a diolch i'r plant a'u rhieni am eu cefnogaeth i'r amrywiol weithgareddau y buom ynglŷn â hwy. Diolch wrth gwrs i'r athrawon am eu gwaith o Sul i Sul.

CAPEL COCH. *Ddydd Sul, Mehefin 26*, cynhaliwyd oedfa arbennig dan arweiniad y Gweinidog pan groesawyd llond bws o aelodau gofalaeth o eglwysi Annibynnwyr o ardal Cei Newydd yn Sir Aberteifi. Roeddent wedi bod i ben yr Wyddfa cyn ymuno â ni ar gyfer yr oedfa. Estynnwyd croeso cynnes iddynt atom i Lanberis, ac yr oedd yn braf cael eu cwmni. Cyn iddynt adael cafwyd paned a chacen yn y festri, i'w cynnal ar eu ffordd i'w swper mewn gwesty yng nghyffiniau Aberystwyth.

Form IIX 1929



Rhes flaen (o'r chwith i'r dde): Rowena Jones, Boot & Shoe Shop, High Street, Llanberis; Olwen James, Nant Peris; Winifred Hughes, Bron Myfyr (Manse M.C. Dinorwig); Buddug Jones, Buarth, Lôn Bwlch Uchaf, Deiniolen; Mary Pritchard, Pontrhythallt, Llanrug; Isabelle Hughes, Llanberis; Olwen Davies, Llanberis; Minnie Rowlands, Deiniol Road, Deiniolen; Glenys Ellis, Victoria Terrace, Deiniolen.

Ail res: Menai Williams, Snowdon Street, Llanberis; Malan Paris, Tai Groeslon Marc, Llanrug; Megan Price Morris, Minffordd, Dinorwig.

Trydedd Rhes: Obadiah John Williams, Commercial House, Penisarwaun; J. Emyr Thomas, London House, High Street, Deiniolen; Hugh Lloyd Edwards, Siop Gron, Penisarwaun; Elwyn Williams, Gweledfa, Brynrefail (Manse M.C.); Eleazar Rowlands, Cwm-y-glo; Bobbie Williams, Gallt y Foel, Deiniolen; Iorwerth Griffiths, Pen Tai Croesion, Penisarwaun; Owen Jones (Nowie), Llanberis.

Pedwaredd Rhes: Ellis Hughes, Berthan Gron, Deiniolen; Hugh Thomas, 1 Dinorwig Terrace, Dinorwig; Hugh Jones, Llanberis; Hugh Morris Thomas, Ceunant, Llanrug; John Gwynedd Jones, Llanberis; Owen Jones (Fi - Owie), Tan y Fron Dinorwig; Owen Fairhurst Wilson, Siop Wilson, Llanrug.

Yr Athro Dosbarth oedd Mr Gwilym Jones, Clwt-y-bont, a'i faes oedd Daearyddiaeth a pheth Cerddoriaeth. Mr Rowlands, oedd y Prifathro, oedd yn byw mewn tŷ mawr ar Allt Chwarel Glyn, ochr y llyn. Arferai ddwâd i'r ysgol ar

fotobeic a seidcar Harley Davidson, lliw 'battleship grey'. Yng nghefnidir y llun y mae'r 'Huts' lle y buom am y ddwy flynedd gyntaf, hen rai y fyddin oeddynt ar ôl Rhyfel 1914-18. Yr oedd tair ystafell ddosbarth yno ac yn y drydedd flwyddyn

bu i ni gael ein symud i ystafell ddosbarth yn yr adeilad gwreiddiol, a Form IVX oeddym ynddi y pryd hynny. Bu i mi adael yr ysgol yng Ngorffennaf 1930.

O. JONES, CAERNARFON
(gynt o Tanyfron, Dinorwig)

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

CHWILOTA

MWY O DROSEDDU A THROSEDDWYR



Awn yn ôl unwaith eto'r mis hwn Ai gofnodion Llys y Chwarter Sesiwn, ond y tro hwn dros ddau gant o flynyddoedd i'r cyfnod rhwng 1776 a 1779, ac i wahanol ardaloedd o fewn y fro. Mae'n amlwg fod cryn ffrae wedi bod yn cronni yn y Fachwen yn ystod 1776, oherwydd erbyn canol mis Tachwedd, gwyswyd pedwar o drigolion yr ardal i'r llys a'u rhybuddio i gadw'r heddych tuag at w'r o'r enw Evan Jones, Penrallt. Y pedwar a enwir yw John Peioidel (ap Idwal neu gam-sillafiad o Powell tybed?), John Thomas, William Griffith a Wiliam Williams, y ddau ddiwethaf yn cael eu disgrifio fel iwmyn. Trigai'r pedwar ohonynt yn y Vachwen; ond anodd darganfod a yw'n gyfeiriad at yr ardal neu at y tŷ ei hun. Roedd pob un ohonynt yn gorfod talu £5 yr un fel ernes o'u bwriad i beidio amharu ar Evan Jones. Yn ychwanegol i'r £5, talodd Morris Williams, iwmyn o Landdeiniolen ac Emanuel Thomas, iwmyn arall o'r un plwyf, 50 swllt yr un am bob un o'r pedwar fel tystion o'u ffydd ynddynt i gadw eu gair. Does dim hanes pellach yn ystod y blynyddoedd sy'n dilyn o enwau'r un ohonynt yn ymddangos gerbron y llys, felly rhaid dyfalu fod y pedwar wedi cadw at eu gair, fod pawb wedi cael cadw ei arian, ond yn bwysicach, fod Evan Jones wedi cael llonydd ganddynt!

Ar ddechrau 1777 rhoddwyd rhybudd i drigolion Caernarfon a Llanrug i ofalu am drwsio'r ffordd o'r dref i eglwys Llanrug. Roedd plwyfolion Caernarfon yn gyfrifol am y ffordd o Stryd y Llyn yn y dref i derfyn y plwyf yn Rhosbodrual - pellter o ddwy filltir, a phlwyfolion Llanrug yn gyfrifol am y ffordd o Rosbodrual i eglwys y plwyf, Llanrug - pellter o filltir a chwarter. Dyma'r cyfnod pan oedd Deddf y Priffyrdd yn dal i gael ei gweinyddu gan y plwyfi. Eu cyfrifoldeb oedd gofalu fod y briffordd drwy'r plwyf yn cael ei chynnal a'i chadw, a rhaid oedd i'r Festri Blwyfol benodi gweithwyr i fod yn gyfrifol am y gwaith hwnnw bob blwyddyn. Ond gan nad oedd tâl am y gwaith, roedd y rhai a fyddai'n cael eu penodi yn manteisio ar y dyddiau o 'drwsio'r briffordd' fel dyddiau o wyliau. A doedd dim posibl eu cosbi am beidio gwneud y gwaith chwaith! Does ryfedd felly, fod ffyrdd y wlad mewn cyflwr difrifol. Y diffygion hyn yn y Ddeddf a arweiniodd yn ddiweddarach i sefydlu'r cwmnïau tyrpeg er mwyn gwella'r ffyrdd, ond yn codi tâl am eu defnyddio er mwyn talu am y gost o'u gwella. Dyna mae'n amlwg oedd y sefyllfa yn Llanrug a Chaernarfon hefyd, oherwydd ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae trigolion Llanrug yn cael eu rhybuddio unwaith yn rhagor fod angen cynnal y ffordd o Bont Rug i'r Rhos Rug. Efallai fod rhyw fath o ymdrech wedi ei gwneud i geisio bodloni'r awdurdodau!

Yn ystod 1778 ceir nifer o achosion o ymosod ar wahanol bersonau o fewn plwyfi'r ardal. Gwyswyd William Jones, labrwr o'r Rhiwlas, i ymddangos gerbron Hugh Williams, Ynad Heddwch, ar gyhuddiad o ymosod ar John Roberts, Tyddyn Badin, Llanddeiniolen. Yn feichiau iddo am £5 yr un, roedd dau w'r o'r un enw - John Williams - a'r ddau o'r Waun Gynfi. Ni cheir mwy o wybodaeth am yr achos.

Yn yr un mis, Tachwedd, ymddangosodd Dorothy Williams, gwraig weddw o Gwm Brwynog, Llanberis, ar gyhuddiad o ymosod ar Elin, gwraig Richard Roberts, eto o'r Cwm Brwynog. Griffith Owen o Lanberis oedd yn feichiau iddi ar gyfanswm o 50 swllt. Roedd gwragedd go wyllt yn byw ar ucheldir Cwm Brwynog bryd hynny mae'n rhaid.

Roedd Tachwedd yn amlwg yn fis go ddrwg i drigolion yr ardal, oherwydd doedd pethau fawr gwell yng ngwaelodion plwyf Llanddeiniolen chwaith. Ymddangosodd Owen Roberts, gof o'r Erw fawr, ar gyhuddiad o ymosod ar Hugh Jones, Ddôl Ddeitio; ac yn Llanrug, rhybuddiwyd Elizabeth Owen, gwraig Rowland Owen, i gadw'r heddych tuag at Catherine, gwraig David Jones. Ni roddir enwau cartrefi yn yr achos olaf hwn, ond credaf mai ffrae deuluol oedd hon rhwng trigolion Bryn Fedwen a Llwyn y Brain. Roedd David Jones yn gymeriad go frith, ac yn arddel plant gan ferch nad oedd yn wraig iddo. Mwy o hanes hwn y tro nesaf!

Daeth y trosedd i'w benllanw erbyn diwedd Tachwedd, gydag ymddangosiad Catherine Thomas o Landdeiniolen yn y llys, a hynny ar sawl cyhuddiad. Merch sengl oedd hon, er na roddir oedran iddi, ac mae'n amlwg ei bod yn lladrones. Efallai mai tlodi oedd yn gyfrifol am hynny, ond rhywsut, mae'r cyhuddiadau yn awgrymu mai cenfigen a'r awch am gael nwyddau'n eiddo personol oedd y rhesymau dros y dwyn. Cyhuddid

hi o ddwyn 'flannel petticoat' gwerth deg ceiniog oddi ar Dorcas Thomas, gwraig Thomas Jones, o'u cartref yn Llanddeiniolen. Cyhuddid hi hefyd o ddwyn 'blue and white handkerchief' a 'striped flannel short gown' gwerth deg ceiniog yr un oddi ar Jane, gwraig Hugh Williams, o'u cartref yn Llanddeiniolen. Disgafir y ddau benteulu fel iwmyn, sy'n awgrymu eu bod yn amaethwyr gweddol gefnog.

Cafwyd Catherine Thomas yn euog o'r cyhuddiadau, ac fe'i dedfrydwyd i gael ei chwipio ar 15fed o Ionawr 1779 ym muarth y carchar yng Nghaernarfon. Tybed beth fu ei hanes wedi hynny?

Diarhebiol a Dywediadau Meddygol

Mae nifer o ddarlennwyr *Papur Dre* yn dilyn hynt a helynt trigolion bro'r *Eco*, ac yn cyfrannu'n achlysurol i'r golofn hon. Bydd nifer ohonynt yn galw i mewn i'r llyfrgell neu'r archifdy yng Nghaernarfon gyda gwybodaeth neu ymholiad. Gan Miss Joan Davies y daeth y casgliad hwn o ddywediadau yn ymwneud â meddyginiaethau ac arwyddion iechyd neu afiechyd. Dyma rai i gnoi cil arnynt dros yr wythnosau nesaf. Caiff mwy eu cynnwys yn y rhifyn nesaf.

- Genau oer a thraed gwresog a fydd byw yn hir.
- Utgorn angau yw peswch sych.
- Nid oes mewn cawl heb lysiau na daioni na maeth.
- Yf ddwr fel ych a gwin fel brenin.
- Prynhawnfwyd ysgafn, cwynos lai. (*Ystyr cwynos yma yw swper*).
- Clefyd byr i gorff a rhew byr i'r ddaear a iachânt ac a gryfhânt bob un o'r ddau.
- Cwynos o afalau, brecwast o gnau.
- Caws defaid, llaeth geifr a menyn gwartheg sydd orau.
- Tair gwledd iechyd: llaeth, bara a halen.
- Tri enllyn iechyd: mêl, menyn a llaeth.

Pedair Cenhedlaeth yn Nhan y Fron, Dinorwig

Un arall o drigolion Caernarfon, Mr Owie Jones, anfonodd y wybodaeth am dyddyn Tan y Fron yn Ninorwig, sef y cartref ble magwyd ef. Yr oedd ef a'i frodyr y bedwaredd genhedlaeth o'r teulu i'w magu yno, ond symudodd eu tad oddi yno yn 1945 i ffermio'r

Wern, Llanddeiniolen. Roedd Mr Jones ar y pryd yn gwasanaethu gyda'r fyddin yn yr Iseldiroedd, a brawd arall iddo yng ngogledd Affrica.

Tyddyn hynod o dda a thaclus oedd Tan y Fron bryd hynny, ac fel y gwelwch o'r map, roedd enw i bob cae. Mae Mr Jones yn cofio dyrnu â ffust ar lawr gwastad y tu cefn i'r tŷ. Roedd tap dŵr o'r tu allan i'r drws cefn, ac wedi ei gerfio ar lechen y tu ôl iddo roedd y dyddiad 'Mawrth 1910', sy'n awgrymu mai dyna pryd y cafwyd dŵr tap gyntaf i'r tyddyn. Deuai'r dŵr o 'seston terfyn' ar Lôn Giarat, a'r man pellaf oedd yn cael ei fwydo ganddo oedd tap arall wrth ochr y ffordd ger tai Chwarel Goch.

I lawr yr allt o Dan y Fron, ac ar ochr dde y ffordd mae tŷ Tan y Fron isaf. 'Snowdon View' yw'r enw arno erbyn heddiw. Gŵr chwaer i daid Mr Jones fu'n gyfrifol am ei adeiladu, a hynny ar dir Tan y Fron. Deuai o Landdaniel ym Môn, a bu'r gorchwyl o adeiladu'r tŷ yn ddigon am ei iechyd, a bu farw'n ddyn ifanc. Roedd y tŷ ar lês gan y Faenol, a bu Ann Williams fyw yno hyd ei marwolaeth yn 1923.

Sgwn i pa ddefnydd wneir o'r caeau heddiw, ac a gedwir yr hen enwau arnynt. Drigolion Dinorwig - rhochwyd i ni.

Gyda diolch i ddau o ddarlennwyr *Papur Dre* am rannu gwybodaeth.


Mwynhewch y gwyliau, a chofiwch gysylltu gydag unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco' erbyn rhifyn Medi. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

Gwasanaeth Gwallt Symudol Gwen



Gostyngiad i'r
henoed

Ffôn:
07919977592




GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901



Tyddyn Tan-y-Fron, Dinorwig.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Nickey Shorney, Emma Hulme, David Hulme, Shan Jones a Dafydd Hardy ar ddiwedd yr Ocsiwn Addewidion a drefnwyd yn y Fricsen gan CRA Ysgol Cwm-y-glo.

UNDEB Y MAMAU. I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor cafwyd noson Moes a Phryn yn yr ysgol gymuned, nos Lun, 6 Mehefin. Dechreuwyd gyda gweddi. Cafodd yr aelodau amser i brynu oddi ar y stondin. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Dorothy a Meira a hefyd rhoddwyd y raffl gan Meira ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwen Owen. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Delyth Hughes, Dôl Afon, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. YSGOL CWM Y GLO

Aeth un ar bymtheg o ddisgyblion yr Adran Iau i'r Ganolfan Hamdden i gystadlu yn y Gala Nofio i Ysgolion Gyda Llai Na 100 O Blant. Nofiodd pawb eu gorau glas ac er nad oeddym yn y tri cyntaf, roedd pob un o'r plant wedi mwynhau y profiad yn fawr.

Aeth y Dawnsyr Gwerin a'u rhieni i lawr i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Roedd deuddeg parti yn cystadlu yn y gystadleuaeth ac er i'r plant Dan 12 ddawnsio yn arbennig o ddel ni chafwyd llwyfan. Serch hynny roedd pawb wedi mwynhau aros yng Nghanolfan newydd yr Urdd a

chael ymweld â Chanolfan y Mileniwm a Techniquet.

Llongyfarchiadau mawr i Tom Barton ac Osian Davies am ennill cystadleuaeth K'NEX Gyrfa Cymru yng Nghaerdydd. Byddant yn awr yn cynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth yn Llundain.

Ar Ddydd Gwener, Mehefin 10, aeth wyth o blant o Flwyddyn 5 a 6 i aros am benwythnos yng Nglanllyn. Cafodd Sioned a Sophie, Charlie, Osian, Jordan, Cian, Lloyd a Dafydd amser da iawn yn canwio, hwylio, adeiladu rafft a.y.b. Diolch i mam Cian, Mrs Ann Bierd, am fynd gyda Mrs Jen Roberts i ofalu am y plant.

Ar nos Iau, Mehefin 16, trefnwyd Ocsiwn Addewidion yn y Fricsen gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolchwn yn fawr iawn i Berchennog y Fricsen am gael cynnal y noson; i Mr Dafydd Hardy am gynnal noson mor hwyliog; i Mrs Nicky Shorney o Barclays a oedd yn noddi'r gweithgaredd; i aelodau gweithgar y CRA a fu mor brysur yn trefnu'r noson, ac yn arbennig i Mrs Emma Hulme, yr Ysgrifenyddes. Rhwng yr Ocsiwn a'r Raffl Fawr gwnaethpwyd £2000. Diolch o galon i chi i gyd.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Betty Roberts, 26 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu yn arbennig am y cardiau, blodau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig ac hefyd i'r plant bach i gyd am ei wneud yn ddiwrnod mor hapus.

DYMUNA Marian, Ian, Gwyn, Bethan, Claire a Jake, teulu y diweddar John Andro, Bryn Awelon, Rhiwen, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael tuag at Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r nyrsus am eu gofal arbennig; i'r Parch John Pritchard a'r Parch Richard Jones am eu geiriau caredig a'u gwasanaeth ddydd yr angladd. Diolch i'r Ymgymherwr, Dylan Griffith, am ei wasanaeth arbennig a'i gymorth a'i gefnogaeth diflino.

DYMUNA Margaret, Gwenlli a Tegid, Porth Gogledd, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion yn dilyn eu profedigaeth o golli Tash yn 33 oed, gwraig annwyl Ian a mam arbennig i Josh a Luke, yn Bury St. Edmunds. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniwyd er cof tuag at Uned McMillan a Hospice T.A.S.H. (Thetford a Suffolk Hospice).

DYMUNA Bet a theulu y diweddar Robin Evans, 12 Hafod Olau, ddatgan eu diolch am y caredigrwydd a dderbyniwyd yn eu colled.

Diolchwn hefyd am y rhoddion a fydd yn mynd tuag at elusen Ymchwil Cancr ac Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig, fel y dymunwyd.

Diolchwn hefyd i Dr Alwyn Parry a wardiau Conwy ac Alaw. Bydd y golled yn fawr i'w deulu, y pentref a'r Eglwys.

COLLEDION ERAILL. Ar ddiwedd Mai, collwyd un arall a fu'n ddiwyd ym mhentref Deiniolen, sef Mr Robin Evans, 12 Hafod Olau. Bu'n gymydog da, yn gymwynasgar i lawer, ac yn un o golofnau'r achos yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Gŵr poblogaidd iawn, fel y dangoswyd gan y dyrfa fawr a ddaeth i'w angladd yn ei hoff Landinorwig. Cydymdeimlwn â'i deulu ac â'i

gyfeillion. Mae'n chwith ar ei ôl.

Un arall o aelodau Llandinorwig a gollwyd y mis hwn oedd Mrs Nancy Price, 435 Rhydfadog (nee Christison). Roedd yn wraig annwyl a hoffus ac uchel ei pharch. Cydymdeimlwn yn fawr â'i mab a'i merch, ac â'i chwaer, Doris, yr unig un sydd ar ôl o deulu lluosog Cae'r Mynydd.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i deulu John Andro Griffith, Bryn Awelon, Rhiwen a fu farw ar 6 Mehefin. Roedd yn briod hoff, yn dad a thaid annwyl a hoffus, a bydd tristwch mawr o'i golli gan ei wraig, Mrs Marian Griffith, ei blant: Ian, Gwyn a Bethan, a'i wryon.

CASGLIAD CYMORTH

CRISTNOGOL. Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol cynhaliwyd cyfarfod yn Ebeneser, dan arweiniad y Parch John Pritchard, i ddechrau'r wythnos a chymerwyd rhan gan aelodau o bob capel. Yn ystod yr wythnos ddilynol, casglwyd £693.35 – ymdrech ragorol. Diolch yn fawr i'r casglwyr a wnaeth y gwaith – nid gwaith hawdd mohono – ac yn arbennig i'r trefnwyr, Neville a Jane Thorman Jones.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CEFNYWAUN AC EBENESER.

I ddiweddu'r tymor, aeth yr aelodau am dro fel arfer. Cawsom gwmni rhai o'r tu allan i'r Gymdeithas, yn cynnwys dau ŵr dewr a fentrodd gyda ni. Aethom yn gyntaf i Lanrwst, lle cawsom ginio ardderchog yn 'Blas ar Fwyd', ac wedyn i Fetws-y-coed. Er gwaethaf y glaw, cafwyd amser difyr. Diolch i Mrs Eirian Jones am drefnu.

PICNIC YR YSGOLION SUL.

Dydd Sul, 19 Mehefin, mwynhaodd aelodau Ysgolion Sul Deiniolen a Llanberis bicnic yn yr awyr iach ar lan Llyn Padarn. Daeth nifer dda o blant a rhieni ynghyd, a chafwyd amser difyr yng nghwmni Dafydd, Gethin a Gruffydd. Diolch i'r Parch John Pritchard am drefnu.

APÊL LEOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI 2005.

Casglwyd £3,039.52 tuag at yr Apêl uchod. Dymuna'r pwyllgor lleol ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i gyrraedd casgliad mor llwyddiannus.

CARADOG PRICHARD

(wedi darllen cyfrol John Elwyn Hughes)

Gwefr o ddatgloi fu'r gyfrol –
hen gwlwm
Ei golyn feddyliol;
O'i angerdd i'w boen ingol,
A lloer oer y fall ar ôl.

R L JONES

Atodiad

LLANRUG

YSGOL GYNRADD LLANRUG.

Dymunwn yn dda i enethod B.I.3 fydd yn cymryd rhan yn y ddawns flodau yn y seremonïau Coroni a Chadeirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol fis Awst, ac hefyd i'r plant sydd yn cymryd rhan yn y pasiant.

Helyntion Bachgen o Chwarelwr Robert David Jones (Chris)

6 Mehefin 1885 – 19 Mehefin 1968

Cynorthwyo'r Ymgymmerwr

Roedd fy nhad yn gyfarwydd ag un o ymgymmerwyr angladdau yr ardal, ac wedi bod yn ei gynorthwyo lawer gwaith ar achlysuron marwolaethau ymysg rhai o'n cymdigion. Pan fu farw un o dafarnwyr y pentref yn ddisymwth, gofynnwyd i fy nhad a chwsmer arall o'r dafarn gynorthwyo'r ymgymmerwr i ddod â'r corff i lawr y grisiau.

Gŵr tal a boliog oedd yr ymadawedig, ac yn pwysu cryn dipyn. Bu farw yn un o'r lloftydd a oedd ar ben y grisiau cul a throellog ar lawr uchaf y dafarn, ac nid oedd modd mynd â'r arch i fyny i le mor gyfyng. Roedd yn rhaid, felly, dyfod â'r corff i lawr y grisiau cyn y gallent ei roddi yn yr arch.

Roedd yn waith trwm, gan fod y grisiau yn rhy gul i ddau fod ochr yn ochr â'r corff. Penderfynodd yr ymgymmerwr y buasai'n haws ei gario ar ei sefyll tan y cyrhaeddent fan lletach o'r grisiau. Ar ôl iddynt gyrraedd y tro cyntaf yn y grisiau, awgrymodd mai doeth fyddai cael seibiant cyn symud ymlaen. Rhoddwyd y corff ar ei sefyll yn erbyn y wal, a rhoddodd y cludwyr eu dwylo ar ei frest i'w ddal yn ddiogel.

Yn ystod y symudiadau yma, bu rhyw gamddealltwriaeth rhyngddynt, ac yn ddisymwth llithrodd y corff o'u dwylo, gan ddisgyn yn swp i waelod y grisiau. Roedd pawb wedi dychryn yn arw, a rhuthrodd y tri i lawr ar ei ôl. Yn ei ddychryn, gofynnodd un ohonynt, 'Ydi o wedi brifo, dŵad?' Pan sylweddolodd y ddau arall beth ddywedwyd, gwelsant yr ochr ddoniol o'r sefyllfa a bu cryn hwyl rhyngddynt. Cadwyd cyfrinach y ddamwain ymysg y tri a gymrodd ran ac ni ddaeth neb i wybod am y digwyddiad ar y pryd.

Y Storiwr

Yn ystod tywydd garw'r gaeaf, a'r eira a'r glaw yn ei gwneud yn amhosibl i weithio yn yr awyr agored, arferai'r chwarelwyr ymgynnull yn y caban i aros i'r tywydd ostegu. I dreulio'r amser roedd rhai yn chwarae gemau megis drafft, chess neu chwaraeon cyffelyb, ond pleser mawr fy nhad oedd dweud straeon. Byddai'n manteisio ar gyfnodau segur i ddiddori ei gyd-weithwyr, yn enwedig y bechgyn ifanc yn eu plith. Storiâu 'celwydd golau' fyddai ei ffefrynnau bron bob

amser, a gallai wneud iddyn nhw barhau am ddyddiau, fel bo'r angen.

Pan fyddai'n rhedeg allan o rywbeth i'w ddweud i gario'r stori yn ei blaen, byddai wedi trefnu o flaen llaw i un o'i gyd-weithwyr eistedd wrth ei ochr i'w gynorthwyo. Byddai'n rhoi arwydd iddo trwy daro ei goes o dan y bwrdd, er mwyn iddo ofyn cwestiwn neu wneud rhyw sylw, a rhoddi cyfle iddo gasglu ei feddyliau at ei gilydd.

Roedd yn storiwr heb ei ail, fel y gwyddem ni'r plant, ac arferai ychwanegu neu newid y stori fel byddai'n mynd ymlaen. Clywais un o'i gyfoedion yn dweud ei hanes yn adrodd stori'r mul wrth griw o fechgyn ifanc ar achlysur tywydd mawr yn y chwarel. Roedd pawb yn gwybod mai stori 'celwydd golau' oedd hi, ac er iddo wneud i'r stori barhau am ddiwrnodau, roedd pawb yn ei mwynhau.

Stori'r Mul

(Stori celwydd golau)

Roedd fy nhad yn gwasanaethu yn y Dwyrain Pell yn ystod Rhyfel Mawr 1914–1918, ac yn teithio ar fwrdd llong, pan gododd storom enbyd. Bu'r llongwyr yn brwydro yn erbyn yr elfennau am ddyddiau, ond daeth ton enfawr, gan ysgubo'r llong yn erbyn y creigiau. Trwy rhyw wyrth, llwyddodd y criw a'r holl filwyr oedd ar ei bwrdd i nofio i'r lan yn ddiogel.

Pan dorodd y wawr gwelsant eu bod wedi glanio ar ynys fechan, a oedd yn llwm a moel, gydag ychydig iawn o dyfiant arni.

Er mawr syndod i fy nhad, gwelodd ful yn sefyll ar y traeth, ac roedd yn ymddangos yn eithaf dof a chyfeillgar. Roedd ei gyflwr yn druenus, ac roedd yn amlwg ei fod yn dioddef o ddiffyg bwyd.

Y syndod oedd ei fod wedi byw cyhyd ar ynys ple roedd y tyfiant mor llwm. Roedd pob asgwrn yn ei gorff i'w weld yn ymwithio trwy ei groen, ond y man mwyaf torcalonnus oedd y pant enfawr yn ei gefn.

Yn fuan iawn daeth fy nhad a'r mul yn ffrindiau mawr, ac ni chawsai symud i unman heb i'r hen ful ei ddilyn.

Roedd y pant yng nghefn y mul yn poeni fy nhad yn arw, a phenderfynodd geisio gwneud rhywbeth ynglŷn â'r broblem. Ar ôl pendroni am ddyddiau, daeth i'r penderfyniad fod yn rhaid iddo godi y pant i fyny. Byddai'n rhaid iddo roddi triniaeth lawfeddygol i'r mul,

ond buasai yn rhaid iddo gael yr adnoddau pwrpasol wrth law.

Bu'n chwilio o amgylch y traethau am ddyddiau cyn dod o hyd i'r peth oedd yn angenrheidiol at y gwaith, ond o'r diwedd dyma fo, sef coes brws llawr. Roedd yn awr yn barod i gyflawni'r llawdriniaeth.

Dewisodd ddau o'r rhai mwyaf dibynadwy o'r criw i'w gynorthwyo, ac ar ôl siarad ac esbonio i'r mul beth oedd yn mynd ymlaen, (erbyn hyn roedd y mul yn deall pob gair a ddywedai fy nhad wrtho), rhoddodd y mul i orwedd yn gyffyrddus ar y tywod. Gyda chymorth y ddau gynorthwyr, gyrrodd y coes brws yn ofalus i fynny ei ben ôl, a'i adael i adfer ar ôl y driniaeth.

Pan ddihunodd y mul y diwrnod wedyn, cytunai pawb ei fod yn edrych yn llawer gwell, ac yn fuan iawn y diwrnod wedyn roedd ar ei draed ac yn cerdded o amgylch.

Aeth misoedd heibio a hwythau yn dal i fod yn gaeth ar yr ynys, ond un diwrnod gwelsant long ar y gorwel. Taniwyd y goelcerth enfawr yr oeddynt wedi ei pharatoi ar gyfer tynnu sylw unrhyw long a allai fynd heibio, a chyn hir gwelsant gwch bychan yn dyfod i'w cyfeiriad. Cawsant i gyd eu hachub, ond yn anffodus, nid oedd y llongwyr yn fodlon mynd â'r mul gyda nhw. Buasai ei gludo mewn cwch mor fychan wedi peryglu bywyd y criw, a bu rhaid i fy nhad fodloni â'r drefn a throï am adref.

Roedd wedi torri ei galon yn lân wrth ffarwelio â'r mul, ac ar ôl cyrraedd gartref, ni allai ei gael allan o'i feddwl.

Aeth blynnyddoedd lawer heibio, ond roedd yr hiraeth amdano yn dal mor gryf, a phenderfynodd logi llong a mynd yn ôl i chwilio amdano.

Roedd un broblem fawr yn ei wynebu, sef nad oedd yr ynys yn cael ei dangos ar unrhyw fap, ond teimlai ei fod yn siŵr o'i hadnabod unwaith y byddai'n cyrraedd y cyffiniau.

Cymerodd wythnosau cyn iddynt gyrraedd y rhan o'r byd ple tybiai fod yr ynys wedi ei lleoli, ond er mynd o un ynys i'r llall, ni allant ddarganfod yr un y credent fod y mul arni. Nid oedd yr un o'r ynysoedd yn foel a didyfiant fel yr un y chwiliai amdani. Aeth wythnosau heibio, ac erbyn hyn roedd capten y llong yn anesmwytho ac eisïau troi am adref, ond perswadiodd fy nhad ef i roi un cynnig arall arni.

Pan oeddynt ar fin troi am adref, gwelsant ful yn sefyll ar draeth un o'r ynysoedd, ond roedd y mul yma i'w weld yn

dda ei fyd, yn iach a bywiog. Roedd yr ynys yn hollol wahanol hefyd, gan fod coed trwchus a glaswellt yn gorchuddio'r holl ynys. Ac eto, roedd rhywbeth yn gyfarwydd iawn yn y mul a safai ar y traeth yn eu gwyllo.

Penderfynodd, er gwrthwynebiad llym y capten, y buasai'n rhaid iddo gael glanio ar yr ynys i gael golwg agosach ar y mul. Ar ôl dadlau ffyrnig, cytunodd y capten, ar yr amod y byddai'n cytuno i gychwyn am adref yn syth ar ôl yr ymweliad.

Prin y cafodd fy nhad roddi ei draed ar yr ynys nag y ruthrodd y mul tuag ato a'i groesawu, yn ei ffordd ei hun. Hwn, yn wir, oedd y mul, a adawodd ar ôl ar yr ynys, a golwg mor druenus arno. Bellach roedd yn lond ei groen, a hawdd gweld ei fod yn berffaith hapus ei fyd.

Y dirgelwch mawr oedd sut yn y byd yr oedd cyn gymaint o dyfiant wedi tyfu ar wyneb yr ynys?

Yr ateb syml oedd, fod y pren a roddwyd i fyny pen ôl y mul yr holl amser yn ôl wedi dadfeilio fesul tipyn. Wrth gerdded a theilio o amgylch yr ynys roedd y darnau bach o'r pren wedi egnio a thyfu yn goed mawr. Roedd y coed wedi rhoddi cysgod i'r tir, a'r glaswellt wedi cael cyfle i dyfu, gan adael yr ynys yn ddelfrydol i anghenion y mul.

Roedd yn glir i fy nhad nad oedd y mul mewn peryg, a bod yr ynys yn lle delfrydol iddo dreulio gweddill ei oes. Er iddo deimlo'n drist o'i adael ar ôl, roedd yn amlwg iddo mai hynny oedd y peth gorau i'w wneud, er lles y mul.

Trodd y llong am adref, ond yn awr roedd yn dawel ei feddwl ei fod wedi gwneud y penderfyniad cywir trwy ei adael ar ôl. Cysurai ei hun wrth feddwl mai ef fu'n rhannol gyfrifol am wella amgylchfyd y mul, a rhoddi bywyd esmwythach iddo yn ei henaint.

Y darllediad ar y radio

Roedd Dafydd, fy mrawd, a minnau wedi prynu radio newydd gan gyfaill i mi a oedd newydd agor siop nwyddau drydanol a setiau radio yn y pentref.

Cawsom ar ddeall ganddo bod modd, trwy siarad i mewn i *headphone* hen ffasiwn a'i gysylltu â chefn y set, i'r llais dod allan trwy'r uchelseinydd fel rhaglen naturiol. Bu Dafydd a minnau'n arbrofi efo'r cynllun, ac er bod y sŵn braidd yn isel, roedd y cynllun yn gweithio'n gampus.

Ar y pryd, prin iawn fyddai raglenni Cymraeg eu hiaith i'w

clwyd, a byddai fy nhad yn mynnu perffaith ddistawrwydd ar unrhyw achlysur o'r fath, beth bynnag fyddai'r testun. Penderfynodd Dafydd a minnau chwarae tric arno, ac yn syth ar ôl swper chwarel un noson, rhoddwyd y cynllun ar waith.

Aeth Dafydd i orwedd ar ei fol ar ben y grisiau gyda'r 'meic' yn ei law, tra yr oeddwn i yn cymryd arnaf diwnio i mewn i'r radio. Pan glywodd fy nhad lais Cymraeg yn dyfod allan o'r set, ac mai rhaglen o chwarel Dinorwig oedd ymlaen, cynhyrfodd yn lân. Symudodd ei gadair fel bod ei ben bron â chyffwrdd y set, gyda'i glust yn gorwedd ar yr uchelseinydd.

Roedd y 'rhaglen' am ymweliad gŵr o'r pentref a oedd wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau ac wedi dychwelyd i fro ei enedigaeth ar wyliau ar ôl llawer o flynyddoedd. Roedd hefyd yn gyn-chwarelwr, ac wedi gweithio am gyfnod yn chwarel Dinorwig cyn ymfudo. Roedd Dafydd yn cymryd rhan yr 'Americanwr' a rhan goruchwyliwr y chwarel, a oedd yn ei dywys o amgylch y gwaith.

Roedd yr 'Americanwr' yn llym iawn ei feirniadaeth o chwarelwyr Dinorwig, gan ddweud eu bod yn griw o rai diog a di-glem, ac na fuasent yn ddigon da i gadw eu swydd yn chwareli America yn hir iawn. Roedd y goruchwyliwr yn cytuno yn gyfangwbl â'r 'Americanwr', gan ddweud y byddai'n rhaid i'r gweithwyr newid eu ffyrdd, ac os na fuasent, byddai'n rhaid iddo gymryd camau llym a diswyddo y rhan helaeth ohonynt.

Erbyn hyn roedd fy nhad wedi colli arno'i hun yn lân, ac yn galw'r goruchwyliwr yn bob enw. Ni fuasai'n maddau iddo am ddweud y fath bethau, ac yn darogan storom o brotest y bore trannoeth gan y gweithwyr. Nid oedd yr un enaid byw yn mynd i gael rhwydd hynt i dorri ar gymeriad y chwarelwyr a fu mor ffyddlon a gonest tros y blynyddoedd, ac a oedd wedi gwneud cymaint o elw i Arglwyddi'r Faenol ar hyd y blynyddoedd.

Aeth y 'rhaglen' ymlaen am oddeutu ugain munud, a phan ddaeth i ben llithrodd Dafydd allan trwy ddrws y cefn, gan fynd ar ei union i'r Bull. Gwyddai y buasai fy nhad yn siŵr o alw yno cyn diwedd y noson er mwyn trafod y rhaglen, ac i weld beth oedd agwedd ei gydweithwyr at yr hyn a ddywedwyd. Bwriad Dafydd, wrth gwrs, oedd gwneud yn siŵr fod y stori yn cyrraedd y chwarel erbyn bore trannoeth.

Aeth fy nhad i'r Bull yn

ddiweddarach y noson honno, fel y disgwyld, a bu trafod mawr am y rhaglen. Ni ddatgelwyd wrtho mai rhaglen ffug a glywodd, ac roedd yn fore wedyn cyn iddo gael y gwir. Ymunodd yn yr hwyl, ac nid oedd dim dicach o gael ei dwyllo, gan y byddai'n disgwyl am ei gyfle yn y dyfodol i dalu'r pwyth yn ôl.

Bellach, mae'r chwarel wedi cau ers llawer blwyddyn, a'r cymeriadau i gyd bron wedi'n gadael. Yr unig beth a erys i'n hatgoffa am eu llafur a'r caledi yw y tomennydd llechi o'r dyddiau a fu.

Wats aur 'Nhad

Wats boced aur oedd hi, tebyg i gannoedd o rai eraill a gynhyrchwyd tua'r un cyfnod. Nid oedd unrhyw beth yn unigryw amdani, ac roedd y math yma yn dra ffasiynol a phoblogaidd yr adeg honno. Roedd yn ddipyn drutach nac un gyffredin, yn bennaf am fod iddi gas aur, a bu rhaid i fy nhad gynilo am gryn amser cyn medru fforddio i'w phrynu. Yn ystod ei hoes, ni fu erioed wats mor gostus i'w chynnal, na'r un chwaith a roddodd cyn gymaint o bleser i'w pherchennog.

Uchafbwynt ei fywyd oedd cael mynd i Gaernarfon nawr ac yn y man i gyfarfod ei hen gyfoedion o amser y rhyfel, a chael peint neu ddau yn eu cwmni. Y broblem, fodd bynnag, oedd cael esgus digon da i gael bendith fy mam am y siwrnai, ac efallai, cael swllt neu ddau yn ychwanegol ganddi at y gost. Roedd yn rhaid hefyd i'r esgus fod yn un ddigon da fel y gellid ei arfer dro ar ôl tro. Beth well felly na'r esgus fod y wats aur angen triniaeth?

Ni fu yr un oriadurwr proffesiynol erioed yn byw yn Deiniolen, felly roedd cael ei hatgyweirio yn lleol allan o'r cwestiwn. Roedd yn wir fod ambell un o chwarelwyr y pentref yn cael eu cyfrif fel 'rhaid da am wats', ond gwiriondeb o'r mwyaf fuasa ymddiried un mor gostus â wats fy nhad i ddwylo dibrofiad. Yr oriadurwr agosaf oedd rhyw ŵr o wlad Pwyl a gadwai siop yng Nghaernarfon, a buasai lleoliad y gŵr hwnnw yn cydfynd yn berffaith â'r cynlluniau.

Roedd yn bwysig fod yr esgus yn cyflawni amryw o ofynion. Yn gyntaf, roedd yn rhaid bodloni fy mam fod yna reswm digonol i'r siwrnai, ac nid rhyw esgus i fynd i Gaernarfon 'i hel diod'. Yn ail, roedd yn rhaid i'r esgus fod yn gyfrwng i mam gyfrannu at y gost, ac yn drydydd, roedd angen esgus a fyddai yn ei

alluogi i fynd i Gaernarfon yn achlysurol fel oedd yr arian yn caniatáu. Roedd esgus trin y wats yn cyfarfod â'i holl ofynion.

Mantais fawr arall oedd na fyddai yr un oriadurwr byth yn trin wats yr un diwrnod ac y byddai'n ei derbyn, a byddai'n ofynnol mynd yn ôl a blaen i'r siop lawer gwaith cyn ei chael yn ôl. Nid oedd yn rhaid aros i'r wats dorri i lawr, ychwaith, gan y byddai yn rhaid i bob wats gael ei glanhau a'i hiro yn achlysurol.

Rai wythnosau cyn ei ymweliad â'r dref byddai'n cwyno wrth mam fod y wats yn colli neu ennill amser. Gwyddai mam yn iawn fod yna siwrnai i Gaernarfon ar y gweill, ac y byddai hynny'n digwydd ar y Sadwrn 'cyfri mawr' nesaf yn y chwarel. Roedd modd iddo gelcio tipyn o'r cyflog yr adeg hynny, heb i mam wybod.

Byddai'n edrych ymlaen at yr ymweliad, a phan gyrhaeddai y diwrnod mawr o'r diwedd, codai o'i wely yn gynt na'r arfer. Byddai'n 'stwnshan' o gwmpas, gan rhyw fwmian canu wrth ei hun. Eilliai yn ofalus, gan wisgo ei siwt 'dydd Sul', gan geisio celu ei frwdfrydedd am y siwrnai oddi wrth mam. Arferai ddweud mai mater o raid oedd mynd i Gaernarfon, a dim mater o adloniant. Gwyddai mam yn wahanol, er na fyddai'n dweud dim.

Byddai mam yn ei ddanfôn at y drws, gan ei rybuddio i 'edrych ar ôl ei hun', a byddai yntau yn dal y bws ddeg o'r gloch am y dref.

Ar ôl cyrraedd, byddai'n mynd o amgylch y farchnad, gan sgwrsio gyda hwn a'r llall. Pan fyddai'n un ar ddeg o'r gloch, a'r tafarnau ar agor, anelai am y Crown neu'r British Legion, gan ymuno â'i gyfeillion. Erbyn tri o'r gloch byddai wedi ail-ennill brwydrau'r Aifft, Palestina, Flanders a'r Somme; wedi datrys problemau economaidd Prydain Fawr, ac wedi dymchwel wal fawr y Faenol. Roedd hwn yn waith caled a sychedig, ond roedd digon o 'ffisig' ar gael.

Ymlaen i Gaffi Gwalia am de, a chael platiad o fara menyn a bara brith, a llond tebot mawr o de, ac oddi yno i siop yr oriadurwr. Gadael y wats yng ngofal y gŵr o wlad Pwyl, gan wybod na welai mohoni am rai wythnosau. Mwy na thebyg, byddai yn rhai misoedd cyn y byddai ddigon cefnog i ymweled â'r dref drachefn, ond gwyddai fod y wats yn ddigon diogel yn nwylo yr oriadurwr o Bwyliaid.

Cyn troi am adref, galwai yn siop y cigydd i brynu darn o gig

erbyn y Sul i mam (argoel o heddwch neu euogrwydd, mae'n siŵr!). Byddai hefyd yn prynu rhyw ddau droed mochyn erbyn yr wythnos wedyn iddo ef ei hun. Daliai y bws saith am adref, a byddai'n berffaith hapus ei fyd am rai wythnosau i ddyfod. Cyrraedd adref, a chael llond powlen o froth a lwmp o gig eidion wedi ei ferwi i swper. Mam yn holi am y wats ac yn cael yr ateb, yn ôl y disgwyl, na fuasa'r wats yn barod am rai wythnosau.

Treuliodd y wats fwy o amser yng Nghaernarfon nac yng ofal fy nhad, ond yn raddol daeth tro ar fyd. Fel yr âi fy nhad yn hŷn, cywiraf yn y byd y rhedai'r wats, a mwy anaml yr oedd angen ei thrin! Er bod mam yn datgan ei syndod am hyn, gwyddai o'r dechrau mai yn fy nhad yr oedd y gwendid, ac nid yn y wats.

Gwyddai hefyd mai da o beth oedd ei ollwng oddi ar ei dennyn yn awr ac yn y man, a gallaf dystio fod y telerau yna yn gweithio yn foddhaol, gan na fu hapusach ŵr a gwraig yn y byd na fy mam a fy nhad.

Darllenais lawer gwaith am garped hudolus a gipiai drigolion y Dwyrân Pell o'u bywydau llwm i ganol digonedd ac esmwythdra rhyw newydd fyd. Pam lai na fasai wats aur yn medru bod yn gyfrwng i greadur o chwarelwr tlawd gael ei gludo i esmwythach dir yn achlysurol?

OWEN JONES

11, RHOS LLWYN, LLANGFN.

Stori i'r Eco?
Cysylltwch a'ch
gohebydd lleol!

Ar Werth
Railway Sleepers
£15.00
Tel: Llanberis 870 735

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO
MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON

LLANRUG

Y DYN CIG ar **675190 / 673188**

Ffôn symudol: **07798 718788**

wefan: **www.ydyncig.co.uk**

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai: £40: Mrs N Huws-Roberts, Bodrida; £25: Mrs Pearl Williams, Parc; £10: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Lliart.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mr Les Calderwood B.Sc.(Hons) MNIMH,MCPP, Meddyg Llysieuol o'r Ffôr oedd y siaradwr gwadd yn y Sefydliad ar 2 Mehefin. Eglurodd sut yr oedd o a'i wraig yn gwneud ffisyg, eli a hufen allan o lysiau a blodau cyffredin o dan yr enw 'Petha Pur'. Cafwyd trafodaeth ddiddorol gyda'r aelodau. Diolchodd Catherine Jones, y Llywydd, i Mr Calderwood. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Nancy Buckley, gan Menna McDaid. Y mis nesaf bydd yr aelodau yn mynd am eu trip blynyddol. Eleni bwriedir mynd am fwyd i Dafarn yr Afr, Glandwyfach ac yna ymlaen i Amgueddfa Lloyd George.

CÔR Y WAUN. Hoffem groesawu Rhiannon ac Irene yn ôl i'r côr ynghyd â Nia, aelod newydd yn ymuno â'i mam yn yr altos. Bu'r cyngherddau yng nghapel Salem, Caernarfon, i godi arian i Tŷ Gobaith yn hynod lwyddiannus a gwnaethpwyd elw o £3,132 ar gyfer yr elusen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bu'r côr yng ngwesty'r Victoria Llanberis ar 9 Mehefin yn diddanu'r ymwelwyr, gyda John Gwynedd yn cyflwyno'r eitemau yn absenoldeb Gwynn Davies, a chafwyd derbyniad cynnes iawn. Rydym yn falch o ddeall fod Gwynn yn teimlo'n well bellach. Bwriedir cynnal noson gymdeithasol yn Nhafarn y Snowdonia ar nos Wener, 8 Gorffennaf.

Mae'r côr yn cymryd toriad dros weddill yr haf gan ailgychwyn ymarfer ar nos Sul, 4 Medi. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (10286) 650128.

LLONGYFARCHIADAU. Dymunwn llongyfarch Heddus Gwynedd, Nant, ar ei dyweddïad â Luis Austin o Batagonia. Dymunwn bob hapusrwydd ichi eich dau.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Elen Jones, Eryri Wen, Stad Brynhyfryd, ac o

gartref Preswyl y Foelas ar hyn o bryd, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed ddechrau mis Mehefin.

Yr un yw ein dymuniad i Miss Katie Roberts (Anti Katie) Stad Tref Eilian ar ddathlu ei phen-blwydd yn 94 mlwydd oed yn ddiweddar.

PRIODAS. Dymunwn bob hapusrwydd i Meic a Lynn, Rhos Alun, ar eu priodas yn ddiweddar. Estynnwn ein llongyfarchion ichi.

ADREF O'R Y SBYTY. Croesawn Erin Haf Roberts, Ael y Bryn, adref o'r ysbyty wedi iddi dderbyn llawdriniaeth. Hefyd Mrs Maureen Griffith, Bryn Eilian wedi iddi ddisgyn a tharo ei phen, a Mrs Roseann Hughes, Stad Tref Eilian wedi iddi ddisgyn ac agor ei gwefus.

Cafodd Mr Alun Mabon Williams, Bro Waun, ddod adref wedi iddo dreulio cyfnod o saith wythnos yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda hefyd i Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt, wedi iddo dderbyn triniaeth i'w glust yn yr ysbyty.

Anfonwn ein cofion atoch i gyd gan ddymuno y byddwch yn teimlo ychydig yn well wedi cael dod adref.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu a ffrindiau y ddiweddar Rhian Rowland a fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd. Nid oedd Rhian wedi bod yn dda yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Nancy a Gwynedd Williams, 2 Bro Waun, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, cymdogion a ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion dderbyniwyd ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

GWELLA. Da clywed fod Robat, mab bychan Eleri a Derek, Stad Tŷ Hen, wedi gorffen ei driniaeth yn erbyn salwch blin, a'i fod yn teimlo yn eitha da. Bydd yn rhaid i'r meddygon gadw llygad arno bob mis ond gobeithiwn yn fawr y bydd yn dal i wella a chryfhau.

YSGOL WAUNFAWR Ymweliad y Babanod â Bwmaris Wythnos cyn y Sulgwyn bu'r ddau ddosbarth babanod ar ymweliad â Bwmaris a Phenmon, Ynys Môn. Roedd yna hen ddisgwyl wedi bod gan fod y trip wedi ei ohirio oherwydd y tywydd drwg yn gynharach yn y tymor. Er iddi fwrw

cyn iddynt gychwyn o'r ysgol gwenodd yr haul arnynt yn Sir Fôn! Cawsant ddiwrnod gwerth chweil, yn ymweld â'r Bad Achub ym Miwmaris a gweld y goleudy ym Mhenmon.

Datblygu Gardd yr Ysgol

Rwy'n siŵr bod trigolion y pentref yn gweld cryn newid yng ngardd yr ysgol erbyn hyn. Nos Fawrth, cyn hanner tymor, daeth tua pump ar hugain o bobl i gynorthwyo yn yr ardd rhwng saith a naw o'r gloch y nos. Hoffem ddiolch i'r rhieni a phlant yr ysgol a ddaeth i helpu ar y noson, a diolch arbennig i griw Clwb leuenctid y pentref a'u harweinwyr am roi o'u hamser i osod y trelisis ar waliau'r cwt. Roedd yn braf iawn gweld cynifer o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn ein helpu ac yn rhoi o'u hamser er budd yr ysgol a'r gymuned.

Da iawn chi a diolch yn fawr i chwi i gyd.

Twrnament Tennis

Bu tri thîm tenis yn cymryd rhan yn Nhwrnament Ysgolion Gwynedd yn y ganolfan yng Nghaernarfon ddechrau'r mis. Llongyfarchiadau i dîm genethod blwyddyn 3 a ddaeth yn bedwerydd; tîm bechgyn blwyddyn 3 a ddaeth yn drydydd ac i dîm cymysg blwyddyn 5 am ddod yn fuddugol. Gwych iawn! Bydd Osian Everett, Gwenan Williams, Rowan Chesmer a Ffiona Barnes yn mynd ymlaen rŵan i gystadlu yn Nhwrnament Gogledd Cymru ym Mae Colwyn ganol mis Mehefin. Dymunwn bob llwyddiant i'r pedwar ohonynt.

Clwb y Côr

Bu'r côr yn ymarfer yn gyson cyn ac ar ôl hanner tymor ar gyfer ymgyrch Practice-a-thon, elusen sy'n codi arian tuag at blant sy'n dioddef o gancr. Roedd y plant yn cael eu noddi ac er nad yw'r arian i gyd wedi dod i law maent wedi casglu £101.00 hyd yn hyn. I gloriannu yr holl ymarfer cawsant gyfle i ganu yn Galeri yng Nghaernarfon nos Wener, 6 Mehefin. Da iawn chi, cafwyd cyngerdd gwerth chweil.

Twrnament Rygbi

Banwn Mercher, 13 Mehefin, bu rhai o fechgyn blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu mewn Twrnament Rygbi ar y Morfa yng Nghaernarfon, a chael pnawn wrth eu boddau.

Digwyddiadau i ddod

Mae diwedd y tymor yma yn llawn prysurdeb unwaith eto. Dyma rai dyddiadau i'w cadw mewn cof.

• Bydd y plant yn helpu i lenwi bagiau yn Morrison, Caernarfon dydd Sadwrn, 25 Mehefin, drwy'r dydd. Pawb o ardal yr Eco i dyrru i Gaernarfon i wneud eich siopa y diwrnod hwnnw!

• Ffair Haf Flynyddol - 13 Goffennaf am 6.30pm

• Bydd yr ysgol yn cau ar ddydd Mercher, 20 Gorffennaf.

CYFLE I HELPU ELA I ENNILL TEITL 'MISS CYMRU'. Gobaith Ela Griffith, merch Wynne a Pat Griffith, Ffenestri Snowdonia, Caernarfon, ond sydd wedi ei magu ac yn byw yn y Waunfawr, yw ennill teitl 'Miss Cymru'. Mae Ela, sy'n 17 mlwydd oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, yn cystadlu yng nghystadleuaeth Miss Cymru, a gallwn ni, drigolion Bro'r Eco ei helpu i dderbyn y teitl drwy bleidleisio iddi yn y gystadleuaeth.

Bydd y cystadleuydd gyda'r



mwyaf o bleidleisiau gan y cyhoedd yn derbyn pwyntiau gwerthfawr yn y gystadleuaeth sydd i'w chynnal ar 22 Gorffennaf.

Er mwyn pleidleisio i Ela, ffoniwch 0901 4909499 a chofnodi y cod dau ddigid '13', pan ddywedir wrthyhch neu

Tecstio: **Wales 13** i'r rhif 84080. (Text Wales followed by a space and number 13 to 84080.)

Mae'r llinellau yn cau dydd Gwener, 15 Gorffennaf. Dymunwn y gorau iti, Ela.

Bydd y rhifyn nesa o'r Eco yn dod o'r wasg ddiwedd mis Awst. Os oes gennych unrhyw newyddion i'w dweud, wnewch chi plis adael imi wybod. Dymunwn wyliau haf hapus i chi i gyd.



Athrawon, rhieni, cyn-ddisgyblion a disgyblion presennol Ysgol Waunfawr yn paratoi yr ardd yn yr ysgol.

Byw Dan y Bwa

I'r rhelyw ohonom ni'r Cymry, Ystrad Fflur yw un o'r mannau mwyaf sanctaidd dan y nef. Ond i Charles Arch a'i frawd a'u tair chwaer, 'y riwins' oedd Ystrad Fflur – man chwarae a oedd ar draws y mur i'w cartref.

Yn *Byw Dan y Bwa* cawn gan Charles ddarlun byw a chynnes, doniol a dwys o'r chwarter canrif a dreuliodd ar fferm y Fynachlog Fawr. Ceir ganddo bortread o gyfnod pan welwyd y newid mwyaf yn hanes amaethyddiaeth a'r bywyd cefn gwlad. Gwelodd Charles ddiflaniad y ceffyl gwedd a dyfodiad y tractor, diflaniad y cneifio traddodiadol a dyfodiad coedwigaeth i lethrau Tywi Fechan. Gwelodd hefyd ddiflaniad diniweidrwydd gwerin bobl a dyfodiad milwyr Americanaidd adeg yr Ail Ryfel Byd.

Yn wahanol i lawer o rai eraill a aeth ati i gofnodi hanes eu bywyd, ni cheir gan Charles unrhyw surni. Yn hytrach mae'r gyfrol yn ddathliad o fywyd mab hynaf y Fynachlog Fawr o'i ddyddiau cynnar hyd at y penderfyniad, ag yntau bellach yn ddyn priod, i adael y pridd a'r defaid er mwyn hyfforddi ffermwyr ifainc, a thrwy hynny roi yn ôl yr hyn a dderbyniodd ef.

Ystrydeb erbyn hyn yw disgrifio rhywun fel 'dyn ei filltir sgwâr'. Ond yn yr achos hwn nid yw'r disgrifiad hwnnw o Charles yn gyfystyr â phlwyfoldeb. Mae'n wir mai yn ei fro ei hun y derbyniodd y gynhyrsgaeth gyfoethog a'i gwnaeth

yn hyfforddwr ac yn arweinydd naturiol yn y byd amaethyddol, ond nid oes derfyn ar orwelion Charles. Symbylodd genedlaethau o bobl ifanc ledled Cymru ac aeth ei enw da o'i flaen ymhell y tu hwnt i Gymru.

Mae *Byw Dan y Bwa* yn fwrllwm o gyfrol a fydd yn gwneud i chi golli dagrau drwy grio a chwerthin am yn ail. Ond er gwaethaf y newidiadau – a'r rheiny, gan fwyaf, er gwaeth – mae llinyn arian o obaith yn rhedeg drwy'r cyfan. Trysor o hunangofiant – gyda mwy, gobeithio, i ddod.

Cyhoeddir *Byw Dan y Bwa* gan Wasg Gwynedd; pris £6.95.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**CRONFA GOFFA
R. H. OWEN**

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes,
Tan y Clogwyn,
Llanberis,
Gwynedd LL55 4LF
Ffôn: (01286) 871562

Ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn 31 Awst 2005.

Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.



**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y Sgwâr
Llanrug**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Aderyn Prin y Cymoedd

Nid pawb o gymoedd y de sy'n sylweddoli pa mor hynod yw'r cymoedd hynny. Fel y profodd yr awdures, Manon Rhys, efallai bod angen gadael yr ardal ac yna ddychwelyd er mwyn ei llawn werthfawrogi. Aeth nofel ddiweddaraf Manon, *Rara Avis*, â hi yn ôl i'w hardal enedigol gan adrodd hanes merch ifanc, Branwen, a phrofiadau doniol a thrist ei magwraeth yn un o'r cymoedd glofaol yn y 1950au.

Ganwyd Manon, sy'n un o'r awduron uchaf eu parch yng Nghymru, yn Nhrealaw yng Nghwm Rhondda. Er ei bod bellach yn byw yng Nghaerdydd, ei gwreiddiau yn y cymoedd sy'n rhoi lliw a realaeth i'r nofel hon. Yn rhyfedd ddigon, wedi iddi gwblhau'r nofel, canfu Manon fod hen gartref y teulu yn y Rhondda ar werth, a daeth y syniad o symud yn ôl yno i'w meddwl. Nid yw'n siŵr o hynny bellach; roedd pris uchel y tŷ yn sioc iddi, er bod hwnnw'n cymryd i ystyriaeth y golygfeydd syfrdanol dros y cwm. Erbyn heddiw, mae gwyrddni newydd yr hen ardaloedd glofaol wedi ei gwneud yn fwy dymunol i fyw mewn rhai rhannau o'r Cymoedd. Wrth gwrs, mae'r ardaloedd hynny'n gwbl groes i'w hatgofion hi o gwm mwy llwydaidd a llaith, fel yr un y mae Branwen yn byw ynddo.

Mae stori Branwen, er nad yw'n hunangofiannol, yn cynnwys llawer o atgofion personol yr awdures o'i magwraeth, felly adroddir y stori mewn dull credadwy iawn. Meddai Manon Rhys,

'Mae'r nofel hon wedi bod yn chwyrlio yn fy meddwl dros y ddwy flynedd diwethaf, a dyma hi o'r diwedd. Mae fy magwraeth innau yn y Cymoedd wedi gwneud i mi

sylweddoli pa mor unigryw yw'r lle, ac rwyf wedi ceisio cynrychioli Branwen fel cymeriad unigryw hefyd, gan gadw hyn mewn cof.'

Datgelir cymeriadau a phersonoliaethau gwahanol yn y nofel trwy amrywiaeth o leisiau, Cymraeg a Saesneg, sy'n creu tafodieithoedd amrywiol cymunedau'r Cymoedd yn y 1950au. Yn ôl Manon,

'Datblygodd yr ardal yn bair ieithyddol pan ddaeth mewnfydwyr o Brydain benbaladr a thu hwnt i fyw a gweithio yno. Ond rwyf hefyd yn cofio clywed, yn blentyn, yr hen bobl yn siarad y 'gloran' neu dafodiaith Gymraeg wreiddiol y Cymoedd. Roeddwn eisiau cyfleur holl amrywiaeth ieithyddol ryfeddol hon yn y nofel.

'Nid yw byd Branwen yn y nofel, gyda'i theimladau o "fod yn wahanol" ac yn "hynod" fel siaradwr Cymraeg, yn rhywbeth y byddai wedi dod wyneb yn wyneb ag ef i raddau mor helaeth pe bai wedi tyfu i fyny yn yr ardal heddiw, efallai. Yn hynny o beth mae'r nofel yn cynnig gobaith i unrhyw un sydd, fel Branwen, yn teimlo ar wahân rywsut i'w hamgylchfyd wrth dyfu. Adar o'r unlliw a hedant i'r unlle yw'r hen ddihareb, ac er bod Branwen yn aderyn prin, yn "rara avis" yn ei chyfnod hi, yn ffodus i'r rheiny sy'n cael eu magu yno heddiw mae diadell Gymraeg y Cymoedd yn fwy o lawer.'

Ac eto, yn y nofel, yn y fynwent ger ei thŷ y caiff Branwen unig, anesmwyth, gysur o chwarae. Mae'n eironig mai unig gysylltiadau'r awdur â Chwm Rhondda erbyn hyn yw beddau ei pherthnasau.

Cyhoeddir *Rara Avis* gan Gomer; pris £7.99.

Llythyrâu

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Pen Roc, Rhodfa'r Môr
Aberystwyth

Annwyl Ddarllenwyr,
Carwn gymryd y cyfle hwn i'ch hysbysu o ddigwyddiadau adloniant Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Unwaith eto, mae'r Gymdeithas yn cynnal wythnos gyflawn o ddigwyddiadau cyffrous ac eang eu hapêl, wedi eu trefnu ar y cyd gyda busnesau lleol a chyda'r nod arbennig o roi hwb i economi a chymunedau bro yr Eisteddfod. Rydym hefyd yn rhoi cyfle unigryw i lawer o dalentau newydd o'r ardal hon berfformio. Credwn felly fod rhaglen adloniant Cymdeithas yr Iaith wedi ei gwreiddio yn y gymuned leol ac yn cyfrannu ati mewn ffordd nad yw llawer o ddigwyddiadau swyddogol yr Eisteddfod ei hun.

Eleni, mae'r gigs wedi eu trefnu mewn dwy o brif ganolfannau'r ardal, Cofi Roc yng Nghaernarfon a chlwb nos Amser ym Mangor. Rydym yn hyderus y bydd y digwyddiadau hyn yn ganolog i 'hwy' yr ŵyl' yn yr ardal a hoffwn wahodd eich darllenwyr i fynychu'r gigs ac i fwynhau rhai o dalentau cerddorol disgleiriaf Eryri a Chymru gyfan. Y rhaglen gyflawn ar gyfer yr wythnos ydy:

Cofi Roc, Caernarfon

Sul, 31.7.05: Steve Eaves, King

Biwt, Y Moddion.

Llun, 1.8.05: Tecwyn Ifan, Alun Tan Lan, Gwilym Morus, Gwyneth Glyn.

Mawrth, 2.8.05: Mim Twm Llai, Vates, Anubis, Anhysbys.

Mercher, 3.8.05: Celt, Nar, Y Cyffro, Vanta.

Iau, 4.8.05: Elin Fflur, Heather Jones, Plant Duw, Pwsi Meri Mew Movement.

Gwener, 5.8.05: Bob Delyn, Geraint Lovgreen, Brigyn, Pala.

Amser, Bangor

Sadwrn, 30.7.05: Meinir Gwilym, Frizbee, Dan Lloyd a Mr Pinc, Bootnic.

Llun, 1.8.05: Maharishi, Kentucky Acwstic FC, Bechdan Jam, Bob.

Mawrth, 2.8.05: Drymbago, Ummh, Brwydr y Bandiau.

Mercher, 3.8.05: Gruff Rhys, Winabego, Fflur Dafydd a'r Barf.

Iau, 4.8.05: Anweledig, Ashokan, Eryr, Rasputin, Cofi Bach a Tew Shady, Kenavo, Y Llofruddion.

Gwener, 5.8.05: Sleifar a'r Teulu, Mattoidz, Sibrydion, Java, Swci Boscowen, MC Saizmundo.

Sadwrn, 6.8.05: Meic Stephens, Alun Tan Lan, Gilespi, Enillwyr Brwydr y Bandiau, Y Brodyr Jones.

Rwy'n sicr y bydd y rhaglen uchod yn dod â dŵr i ddannedd eich darllenwyr beth bynnag fo'u hoedran a'u blas cerddorol, ac y gallwn, gyda'ch cefnogaeth, wneud wythnos Prifwyl 2005 yn un fythgofiadwy a llwyddiannus i'r ardal gyfan. Edrychwn ymlaen yn fawr i'ch gweld ym mis Awst!

Yn gywir

Owain Schiavone

Swyddog Adloniant

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 9 Ebrill, yng Nghapel Hebron, Hen Golwyn, fe briodwyd Mair Owen Hughes, merch hynaf y Parch S. O. ac Eirlys Hughes, 5 Ffordd Celyn, Hen Golwyn (Tan-y-cae gynt) a Dafydd Watts, Llanfrothen, mab hynaf Mrs G. Adams, Penrhyndeudraeth a Mr C. Watts, Bryste. Gwasanaethwyd gan y Parchn. R. J. Owen Griffiths ac S. O. Hughes a chafwyd darlenniadau gan Mrs G. Adams a Mr C. Watts. Yr organydd oedd Mr Ifor Clwyd Jones.

Y morwynion oedd Rhian Wyn Hughes (chwaer y briodferch), Ffion Eleri Hughes a Nia Lowri Hughes (nithoedd). Y gwas priodas oedd Mr Meic Watts (brawd y priodfab), a'r ystlyswyr oedd Mri. Owain Davies a Paul Gould.

Cynhaliwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Abaty Maenan a threuliwyd y mis mêl yn yr Eidal. Mae Mair a Dafydd yn Swyddogion Datblygu yng Nghwmni Cymad ym Mhorthmadog a byddant yn ymgartrefu yn Llanfrothen.

DIOLCH. Dymuna Mair a Dafydd ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r cyfarchion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ac i'r rhai a fu'n gymorth iddynt i wneud y diwrnod yn un bythgofiadwy.

CLWB 100 Y CLWB PÊL-DROED. Enillwyr gwobrau Mawrth, Ebrill a Mai oedd:

Mawrth: £100: (97) Howard Jones, Bethel; £50: (57) Mathew Cossett, Y Felinheli; £25: (75) Andy Gibson, Bethel ac (8) Alwynne Jones, Bethel.

Ebrill: £100: (74) Caroline Johnson, Bethel; £50: (2) Carys Williams, Bethel; £25: (36) Geraint Jones, Bethel a (25) Idris Morris.

Mai: £100: (87) D. Chubb, Bangor; £50: (91) David Jones, Bethel; £25: (59) Geraint Evans, Caernarfon a (81) Wil Robinson.

ADRAN YR URDD. Aeth tua 25 o blant yr Adran i Gaerdydd i gystadlu yn yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr i Manon Elwyn ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd pres dan 12 oed, ac i'r Grŵp Pop Rapscales ar ddod yn gyntaf yn eu cystadleuaeth hwy. Ardderchog wir! Fe wnaeth y Parti Deulais, y Parti Llefaru a'r Côr eu rhannau'n ardderchog ond ni lwyddwyd i gael llwyfan y tro hwn. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Llongyfarchiadau hefyd i'r grŵp pop, logwrt Pinc, ar ddod yn gyntaf dan 15 oed ac i Bethan Williams ar ennill y Fedal Ddrama. Tipyn o gamp!

* * *

Ar ôl y Steddfod daeth yn amser y Mabolgampau ar nos Lun, 20 Mehefin. Daeth Fflur Huws yn gyntaf ar y naid hir dan 10 oed, a Lois Jones yn ail ar daflu pêl. Daeth y tîm ras gyfnewid dan 10 oed: Fflur, Megan, Mari a Beth, yn ail. Cafodd Daniel Bell gyntaf ar y naid hir dan 12 oed; Einir gyntaf am redeg dan 12 oed; Gruffydd John ail am redeg dan 12 oed, a'r tîm ras gyfnewid: Aled, Gerallt, Gruffydd a Daniel, yn ail. Da iawn pob un ohonoch fu'n cystadlu ar y noson. Pob lwc i chwi ym

mabolgampau'r Sir ym Mangor ddiwedd y mis.

Bydd y Côr, Manon Elwyn, Rapscales, logwrt Pinc a'r Grŵp Offerynnol yn cymryd rhan mewn cyngerdd yng Nghapel Cysegr, Bethel, nos Wener, 24 Mehefin.

I ddiwedd blwyddyn brysur a llwyddiannus bydd 24 o blant Blwyddyn 5 a 6 yn mynd am benwythnos i Lan Llyn ar 1 Gorffennaf. Cawn fwy o'u hanes y tro nesaf.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 8 Mehefin 2005 cynhaliwyd cyfarfod ola'r tymor ac aeth aelodau'r gangen ar daith i Nant Gwrtheyrn. Cafwyd croeso arbennig yno ac aeth yr aelodau'n gyntaf i'r capel lle cafwyd cyflwyniad difyr i hanes a chefnidir y Nant cyn cael cyfle i fynd ar grwydr o gwmpas yr hen bentref. I orffen y noson, croesawyd yr aelodau i Gaffi Meinir i fwynhau'r bwffe a oedd wedi'i drefnu ar eu cyfer.

Cyn trosglwyddo'r awenau i'r swyddogion newydd, cafwyd rhai cyhoeddiadau gan y llywydd. Cydymdeimlwyd â Collwyn, gŵr Rita, ar golli ei chwaer yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad buan i John, gŵr Elizabeth, Pen-parc. Llongyfarchwyd Bethan Williams, Manon Elwyn, ac aelodau o fand Ysgol Brynrefail ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd a braf oedd gweld Angharad Price ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd yn beirniadu hefyd. Dymunwyd pen-blwydd arbennig i Mary ym mis Awst ac i Siân ym mis Gorffennaf. Diolchodd y llywydd hefyd i'r ysgrifennydd a'r trysorydd am eu gwaith a hefyd i aelodau'r pwyllgor am eu hynawsedd a'u parodrwydd i gydweithio drwy'r flwyddyn, yn ogystal ag i'r aelodau oll am fod mor barod i helpu gyda'r trefniadau ar gyfer wythnos Eisteddfod Eryri. Mae hyn wedi hwyluso gwaith i bawb. Diolchwyd i Siân, Gwyneth ac Ellen am gynllunio'r clawr ar gyfer llyfr Alys.

Enillydd y raffl oedd Gwyneth Jones a dymunwyd yn dda i'r Swyddogion a fydd yn gweithredu yn ystod y tymor newydd.

NEWYDDION YR YSGOL.

Mae'r tymor olaf yn dymor prysur iawn ym mhob ysgol, gyda nifer fawr o weithgareddau ac ymweliadau wedi eu trefnu i'r plant.

Cafodd Blwyddyn 4/5 ddiwrnod a hanner yng nghwmni Cerdd Cymuned Cymru ddechrau'r mis pryd y cafodd y plant gyfle i gasglu amrywiol bethau o gwmpas y cae, cyfle i dynnu lluniau a recordio synnau yn yr amgylchfyd. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith ar ffurf CD yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mehefin 13 oedd diwrnod lansio Apêl Affrica / Asia S4C. Bu'r plant yn brysur iawn yn coginio bisgedi o ryset Dudley ac yna agor y caffï yn y prynhawn. Daeth Dudley atom i helpu i werthu'r bisgedi i'r nifer fawr o rieni a neiniau a theidiau a ddaeth i'w prynu. Gwnaed casgliad o £150 tuag at yr apêl.

Ar 14 o'r mis daeth y lori ailgylchu ar ymweliad er mwyn i blant y babanod weld y drefn o gasglu sbwriel yn gyfrifol.



'Y Rapscales' (a Gwion) – Enillwyr Cystadleuaeth Band Roc a Phob dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd.



'logwrt Pinc' – Enillwyr cystadleuaeth Cân Gyfoes dan 15 oe3d yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd.



Robin Llwyd oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth dan 15 oed: 'Cyfres o brintiau du a gwyn'.



Digon o gwsmeriaid yn disgwyl am y bisgedi er budd Apêl S4C.

Amseroedd arbennig -

● 1985	Kenny Stuart	Record y ras	1.02.29
● 1985	Robin Bryson	Record i'r copa	39.47
● 1993	Carol Haigh	Record y merched	1.12.48
● 1995	Gianin Vello	Record y rhedwr dros 40 oed.	1.05.23
● 1996	Lucio Fregona	Record o'r copa i Lanberis	21.11
● 1998	Colin Jones (Pont Rug)	Cymro Cyntaf	1.05.14
● 2004	Alun Vaughan	Gorau o Lanberis	1.06.12
● 2004	Anthony Ball	Rhedwr hynaf (74 oed) i orffen y ras	2.33.38

DYNION

ENW

COPA/DIWEDD

1976	D J FRANCIS	44.57	1.12.05
1977	R S WILDE	43.20	1.06.07
1978	R S WILDE	43.20	1.04.28
1979	J NORMAN	42.37	1.05.00
1980	P PEZZOLI	42.41	1.06.53
1981	J WILD	43.08	1.05.18
1982	J WILD	43.45	1.05.55
1983	R KEENEY	46.50	1.08.39
1984	F BONZI	41.53	1.03.46
1985	K STUART	39.57	1.02.29*
1986	L BORTOLUZZI	42.11	1.04.24
1987	M MAY	41.22	1.03.43
1988	C DONNELLY	42.42	1.04.38
1989	J LENIHAN	40.53	1.04.12
1990	L FREGONA	42.28	1.03.43
1991	M CROASDALE	42.30	1.04.48
1992	M CROASDALE	42.51	1.05.09
1993	I HOLMES	42.55	1.04.14
1994	F CIAPONI	42.34	1.04.44
1995	M KINCH	41.30	1.02.58
1996	M ROSCOE	43.14	1.07.18
1997	I HOLMES	43.05	1.04.50
1998	C JONES	42.33	1.05.14
1999	N WILKINSON	43.15	1.05.51
2000	N WILKNISON	42.55	1.05.45
2001	M DEGASPERI	42.22	1.05.51
2002	T DAVIES	44.41	1.07.11
2003	T DAVIES	42.34	1.05.57
2004	I HOLMES	44.00	1.05.38

MERCHED

ENW

COPA/DIWEDD

B HOGGE	65.20	1.40.15
J GLASS	68.40	1.39.46
J GLASS	61.41	1.31.42
J GLASS	59.10	1.29.02
P HAWORTH	55.28	1.25.18
R COATES	58.03	1.24.49
R NAISH	60.38	1.24.10
B HOGGE	66.32	1.39.32
P HAWORTH	56.32	1.24.03
P HAWORTH	52.46	1.20.29
C HAIGH	47.42	1.14.36
A CARSON	54.31	1.24.19
S DILNOT	53.22	1.22.10
A CARSON	54.33	1.22.38
T CALDER	52.03	1.17.25
A BUCKLEY	52.42	1.19.35
T CALDER	52.18	1.18.37
C GREENWOOD	47.07	1.12.48*
L WRIGHT	55.39	1.22.35
P SLOAN	53.13	1.22.33
L LEAVESLEY	56.30	1.26.56
C GREENWOOD	47.14	1.16.11
A MUDGE	48.37	1.16.14
H JOHNSON	55.39	1.25.12
A MUDGE	51.15	1.20.28
I ZATORSKA	40.05	1.19.04
T BRINDLEY	52.47	1.20.37
DAWN SCOTT	56.11	1.25.40
C WHITEHEAD	50.46	1.18.28

RHEDWYR LLEOL

ENW

COPA/DIWEDD

1976	MEIC ROBERTS	59.35	1.31.38	1992	COLIN DONNELLY	43.33	1.07.43
1977	BOB ROBERTS	58.30	1.26.27	1993	COLIN DONNELLY	42.45	1.04.53
1978	TEGID ROBERTS	52.40	1.19.26	1994	COLIN DONNELLY	44.22	1.07.42
1979	TEGID ROBERTS	49.27	1.17.01	1995	COLIN DONNELLY	44.05	1.08.44
1980	TEGID ROBERTS	48.26	1.12.18	1996	KEVIN PRYDDERCH	50.21	1.14.44
1981	TEGID ROBERTS	48.12	1.14.19	1997	GWYNFOR OWEN	47.40	1.14.24
1982	GLYN GRIFFITHS	46.04	1.09.13	1998	COLIN JONES	42.33	1.05.14
1983	GLYN GRIFFITHS	49.27	1.12.15	1999	GWYNFOR OWEN	46.24	1.13.49
1984	HEFIN GRIFFITHS	49.45	1.14.36	2000	COLIN DONNELLY	46.09	1.10.36
1985	HEFIN GRIFFITHS	42.20	1.08.54	2001	COLIN DONNELLY	44.50	1.09.59
1986	HEFIN GRIFFITHS	44.27	1.08.38	2002	COLIN DONNELLY	44.27	1.09.00
1987	GLYN GRIFFITHS	44.32	1.08.33	2003	ALUN VAUGHAN	45.25	1.12.19
1988	HEFIN GRIFFITHS	40.29	1.06.30	2004	ALUN VAUGHAN	43.33	1.06.12
1989	COLIN DONNELLY	43.25	1.05.35				
1990	HEFIN GRIFFITHS	42.55	1.06.38				
1991	COLIN DONNELLY	44.38	1.07.11				



Hoffa'r trefnwyr, wrth ddathlu y 30 ain Ras, ddiolch i'r holl wirfoddolwyr, aelodau Sant Ioan a'r meddygon oll am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Diolch hefyd i'r holl noddwyr a'r teuluoedd sydd wedi rhoi llety yn rhad ac am ddim i sawl rhedwr tramor dros y blynyddoedd.

yn fyw i chi ar S4C ac S4C Digiol

joe brown



eryri
snowdonia

Ras yr Wyddfa

Rhedwch i'n gweld ar unrhyw adeg

Cefnogwyr a noddwyr
y ras ers y cychwyn

Llanberis -

Stryd Fawr / High Street, LL55 AHA
ffôn / tel - 01286 870327
ffacs / fax - 01286 870970

Capel Curig

Nr Bewts y Coed, LL24 0EN
ffôn / tel - 01690 720205
ffacs/ fax - 01690 720224

Gwesty Pen y Gwryd



- Un o dafarndau hynaf Eryri
- Cartref mynydda Prydain
- Cwrw traddodiadol
- Bwydlen ddyddiol ar gael

Rydym yn falch o fod yn
gysylltiedig a'r digwyddiad
yma ers y cychwyn.

**Dymuniadau gorau i'r trefnwyr
a phob lwc i'r rhedwyr yn y
30ain Ras yr Wyddfa**

www.creadcyf.co.uk

Oriel Ynys Môn

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

BBC Cymru Wales

S4C

Uned 5

Ras yr Wyddfa

Bwrdd yr Iaith

Busnesau lleol

**gwasanaeth
dylunio/ cyfryngau**

cysylltwch

01286 678669

07867 976183

dylunio
cread
Cyf.



Pob lwc i Ras yr Wyddfa
Prif gwmni dylunio y ras


SNOWDON
MOUNTAIN
RAILWAY

RHEILFFORDD
YR WYDDFA

A Majestic Mountain Top Adventure Antur Fawreddog i Gopa'r Wyddfa

Travel on
the only public rack
and pinion railway in Britain
to the 1085m summit of
Snowdon - the highest
mountain in England
and Wales.

Teithiwr ar yr unig rheilffordd "rac a phiniwn"
ym mhrydain, 1085m i gopa'r Wyddfa -
Yr mynydd uchaf
yn Lloegr a
Chymru.



SNOWDON
MOUNTAIN RAILWAY

To the Summit since 1896

For information or to book call 0870 458 0033
or visit www.snowdonrailway.co.uk

SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4TY

Rheilffordd yr Wyddfa yn dymuno pob llwyddiant i bawb yn ras 2005

**Llongyfarchiadau o'r mwyaf
i'r trefnwyr am eu gwaith
gwirfoddol dros gyfnod
o 30 mlynedd.**

**Os nad oes gennych
awydd i redeg - dewch
gyda ni ar y tren.....**



yn fyw i chi ar S4C ac S4C Digiol



DATHLU 30 MLYNEDD O HERIO'R WYDDFA - 1976 - 2005

Y RAS - Ras 10 milltir o Ddol y Goeden i gopa'r Wyddfa (3650 troedfedd) ac yn ôl. Cynnwys y ras un filltir o redeg ffordd a naw milltir ar y llwybr sydd yn dilyn y rheilffordd. Amrywia'r cwrs o lechweddau tyner Cwm Brwynog i ddringo gelltydd creigiog Allt Moses a Chlogwyn Coch.

Ym mis Mai 1976 rhoddodd Ken Jones syniad gerbron pwyllgor Carnifal Llanberis mai da o beth fyddai trefnu ras o'r pentref i gopa'r Wyddfa ac yn ôl. Gan mai prin oedd yr amser i drefnu rhoddwyd hysbysebion brys yma a thraw a chyn pen dim gwawriodd bore Sadwrn y 19eg Gorffennaf a daeth mintai fechan o redwyr ynghyd ger Prince of Wales yn y pentref. Toc cyn un o'r gloch rhoddwyd cychwyn ar achlysur sydd bellach yn rhan o hanes Cymru.

I'r pentrefwyr roedd taith i'r copa yn fenter hir a blinedig a syfrdanwyd pawb pan gwblhaodd Dave Francis o Fryste y cwrs mewn amser o 1 awr 12 munud 05 eiliad, a oedd ar y pryd yn orchwyl gwbl anhygoel. Dyna'r cychwyn. Niferus fu'r ceisiadau i sefydlu ras flynyddol a chyn pen dim daeth yr angen i gyfyngu ar y nifer o redwyr am sawl rheswm. Symudwyd y cychwyn i Ddol y Goeden ger glannau Llyn Padarn a gwelwyd cynnydd yn y nifer ac yn safon y rhedwyr a bu gwelliant blynyddol ar amseroedd y buddugwyr.

1 awr 2 munud 29 eiliad.

Dyma'r record anhygoel a gyflawnwyd gan Kenny Stuart o Keswick yn Ras yr Wyddfa 1985. Mae ugain mlynedd wedi mynd heibio bellach ers i Kenny gyflawni'r gamp anhygoel o herio'r Wyddfa mewn llai nag awr a thri munud.



Rhif 106 -
KENNY STUART
Record y Ras (1985)

Rhif 103 -
PRIVATO PEZZOLI

Rhif 102 -
FAUSTO BONZI

O ystyried fod cwrs ras Yr Wyddfa bron dri chwarter milltir mewn pellter o gychwyn llwybr Llanberis ger Maes Derlwyn i gopa'r Wyddfa, gallwn argyhoeddi heb unrhyw amheuaeth fod yr Wyddfa wedi ei choncro ar droed o Lanber i'r copa ac yn ôl mewn llai nag awr. Yn yr un ras sefydlwyd record arall sydd yn dal hyd heddiw, sef perfformiad anhygoel y Gwyddel Robin Bryson, a redodd i'r copa mewn amser anghredadwy o 39 munud a 47 eiliad.

Roedd y flwyddyn 1985 yn gyfnod euraidd ym myd Rasys Mynydd yn arbennig i Kenny Stuart. Aeth ymlaen i ennill pencampwriaeth y byd yn yr Eidal a bu'n fuddugoliaethus yn ras y Trofeo Vanoni. Kenny heb os, oedd y rhedwr mynydd mwyaf llwyddiannus a welodd gwledydd Prydain erioed ac mae'n dal llawer i record ar hyd a lled mynyddoedd Prydain hyd heddiw.



Dave Francis yn cwblhau y cwrs
o fewn 1 awr 12 munud 05 eiliad



Yn 1980 gwnaed cysylltiad am y tro cyntaf gyda'r Eidalwyr o dref Morbegno yng ngogledd y wlad. Cyrhaeddodd dwsin o redwyr i Lanberis yn hwyr ar noson eithriadol o lawog cyn y ras. Ras 1980 oedd, o bosib, yr un wlypaf yn ei hanes a syndod pellach oedd pan enillodd Privato Pezzoli ar ei ymweliad cyntaf erioed â chopar Wyddfa. Mae Ras yr Wyddfa wedi ei gefeillio gyda ras y Trofeo Vanoni sydd yn cael ei chynnal yn Morbegno bob mis Hydref. Yn yr un modd mae clwb rhedeg CSI a chlwb Eryri wedi gefeillio a seiliwyd y cyfeillgarwch ymhellach yn 2004 pan efeillwyd Llanberis â thref Morbegno.

- Y Cymro cyntaf i ennill y ras oedd Colin Jones o Bontrug yn 1998 mewn amser o 1.05.14.

- Colin yw'r unig frodor o fro'r Eco i ennill y ras.

- Cymerodd sawl brodor o Lanberis y sialens ers y cychwyn, gyda Alun Vaughan yn rhagori mewn amser o 1.06.12 yn 2004 gan gipio y 3ydd safle yn dyn wrth sodlau'r Ffrancwr, Julien Rancon.



Alun Vaughan

- Record o'r copa i'r terfyn. Llamodd Lucio o'r copa i Lanberis mewn 21 munud a 15 eiliad yn 1990.

- O ran trefnu mae yn llawer haws llwyfannu'r ras yn ystod tywydd gwlyb gan nad oes angen cymaint o ddŵr ar y rhedwyr yn ystod eu taith i'r copa ac yn ôl. Prin iawn yw'r anafiadau yn ystod tywydd gwlyb.

- Yn 1996 cynhaliwyd rasys Tlws Ewropeaidd yn ystod penwythnos Ras yr Wyddfa gyda thair ras yn digwydd, un yn arbennig i ddynion a merched yn y dosbarth rhyngwladol a ras agored i bawb arall.

- Yn y ras i redwyr hŷn (dros 40 oed) crëwyd record newydd gan Gwynfor Owen o Lanberis yn 1994 gydag amser o 1.10.43.



Gwynfor Owen

- Yn 1995 crëwyd record anhygoel yn yr un dosbarth gan yr Eidalwr, Gianni Vello, yn 1995 mewn amser o 1.05.23

- Hatric – Dim ond tri sydd wedi llwyddo i ennill y ras dair gwaith, sef: Joan Glass o Fachwen, Carol Haigh ac Ian Holmes

- Mae pedwar wedi rhedeg ym mhob ras ers 1976, sef Pete Coleman (Luton), Harvey Lloyd (Nant Gwynant) Malcolm Jones (Tremadog) a Phil Jones (Conwy)

- Yn 1992 teithiodd tîm o wlad Siec i'r ras gan gychwn o Prague am saith o'r gloch, y bore cyn y ras. Wedi teithio drwy Ewrop mewn bws am bron i 31 o oriau cyrhaeddasant y llinell gychwyn ddeg munud cyn tanio'r gwn. Synnwyd pawb wrth i Milan Pesava gyrraedd y copa yn yr ail safle ac yn bedwerydd yn y diwedd.

- Un o syrpreisys mwyaf y ras oedd i Ken derbyn siec sylweddol, heb unrhyw rybudd nag eglurhad, gan Syr Tim Rice ar gyfer llwyfannu ras 2001.



Ian Holmes



Ras yr Wyddfa 2005

Cwmni da yn falch o ddod â "Ras yr Wyddfa" yn fyw i chi ar S4C ac S4C Digidol.

Dyddiad - Gorffennaf 23, 2005
Amser - 14.30pm

Cae Llenor, Lôn Parc,
CAERNARFON, LL55 2HH
Ffôn 01286-685300
Ffacs 01286-685301

cwmni da

S4C



Colin Jones



Robin Bryson

yn fyw i chi ar S4C ac S4C Digidol



Dudley yn gwerthu bisgedi yn Ysgol Bethel er budd Apêl Asia / Affrica S4C.

Aeth tîm rygbi'r ysgol i Dwrnament yng Nghaernarfon ddiwedd yr wythnos a dod oddi yno efo'r darian am ennill y twrnament. Diolch i Gwyn Williams ac Eifion Jones am eu hyfforddi.

Daeth Dewi Griffith ar brofiad gwaith i'r ysgol am bythefnos cyn dechrau cwrs hyfforddiant dysgu yn yr hydref, a Taryn Bennet ar brofiad gwaith i'r gegin. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu gyrfaoedd.

Cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol ddydd Mercher, 22 Mehefin, gyda'r plant i gyd wedi bod yn ymarfer yn galed iawn.

Aeth Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad maes i Antur Waunfawr fel rhan o'u gwaith thema y tymor hwn.

Mae'r plant yn brysur iawn hefyd yn casglu nawdd i gerdded o'r ysgol i Gelli Gyffwrdd yn ystod wythnos olaf y tymor, i gasglu arian i brynu bwrdd gwyn rhyngweithiol arall i'r ysgol. Mae perchnogion Gelli Gyffwrdd yn garedig iawn yn rhoi mynediad am ddim i'r holl blant i fwyhau'r cyfleusterau i gyd.

Bu nifer dda o'r plant yn cymryd rhan yn Noson Lawen y pentref yn Capel Cysegr i godi arian i apêl Bethel yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae Mrs Bethan Griffiths, athrawes Blwyddyn 4, yn ein gadael am gyfnod mamolaeth. Gobeithio y bydd brawd neu chwaer bach i Gwenlli a Huw wedi cyrraedd cyn diwedd Gorffennaf. Bydd Mrs Griffiths yn ei hól ddechrau'r flwyddyn. Pob dymuniad da iddi hi. Bydd Mrs Kaylie Williams yn ei dosbarth tan ddiwedd y tymor.

Dymuna'r Pennaeth a'r staff ddiolch i'r rhieni a'r pentrefwyr am bob cefnogaeth a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

CYMORTH CRISTNOGOL.

Casglwyd £691.08 yn yr ardal at Gymorth Cristnogol yn ystod yr ymgyrch ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb am eu haelioni.

PASANT EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Dyma lun dau o'r pentref, sef Aaron Gwyn a Gethin Wyn, fydd yn cymryd rhan yn y pasiant 'Wil wrth y Wal'. Maent yn brysur yn mynychu ymarferion gyda nifer o blant yr ardal.

Bu i Gethin gael ei ddewis yn facwy i'r Orsedd y llynedd, a bydd

yn parhau â'r gwaith yn y Faenol. Braf fydd gweld O LEIAF dri o'r pentref yn cymryd rhan y mhrif seremonïau'r wythnos - yr Archdderwydd Selwyn Griffith, Dewi Griffiths yn chwythu'r corn gwlad, a Gethin yn facwy.

Pob dymuniad da i'r tri ohonynt a phawb o'r pentref fydd yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chystadlaethau. **PWYLLGOR APÊL BETHEL A SEION.** Daeth y gweithgareddau i ben gyda chyngerdd 'Diolch yn Fawr', yng nghapel Cysegr. Diolch yn fawr i bawb am eu cydweithrediad parod a graenus unwaith eto. Yr oedd yn gyfle hefyd i longyfarch nifer o ieuenctid y fro a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd.

Dylsw'n egluro fod cyfraniad y Cyngor Cymuned o £6,000 wedi ei ddosrannu pro rata ymysg pwyllgorau apêl gwahanol bentrefi y plwyf.

Bydd yr elw yn cael ei ategu at gyfanswm Bethel sydd, yn barod, wedi pasio'r targed gwreiddiol o £3,010. Cyhoeddir y swm terfynol yn yr Eco nesaf.

Llongyfarchiadau, ac edrychwn ymlaen i weld un o 'Hogia Bethel', yn ein harwain mewn Eisteddfod i'w chofio, a hynny yng 'ngwyneb haul a llygaid goleuni'. **EISTEDDFODOL.**

Llongyfarchiadau i Dafydd Guto ar gipio Cadair Eisteddfod Llanfachraeth, Sir Feirionydd, yn ddiweddar. Yn yr un eisteddfod cipwyd cystadleuaeth yr englyn gan Richard Llwyd Jones. Bu'n llwyddiannus hefyd yng Nghystadlaethau Rhyddiaith Eisteddfod Llandudoch.

**Gweithio yn llawn amser?
Rhy brysur? Dim amser i
lanhau a smwddio?**

Gwasanaeth o safon uchel
am bris rhesymol
ym Mro'r Eco

Gofynnwch i
Awen (07790691457)
am wasanaeth glanhau,
a beth am i
Janet (07766880650)
wneud eich smwddio.



Aaron Gwyn a Gethin Wyn.

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC WINDOWS**



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



Dylan Griffith

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill





CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCN UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Glanhau eich Cartref?



Gwasanaeth ym mro'r Eco
Safon uchel am bris rhesymol

Cysylltwch â:

Janet ar **07766 880650**

neu

Sharon ar **07748 626607**

am help:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

DIGWYDDIADUR MAI

1-2: Penwythnos CELLOSCOP

1: Cyngerdd Cyhoeddus yn Galeri Caernarfon gan y Pumawd Cello sy'n cynnwys aelodau o Gerddorfa Hallé 7.30 y.h.

2: Gweithdai Cello ar gyfer myfyrwyr o bob oed a chyrhaeddiad. Manylion o'r Ganolfan (01286 685230) e.bost elinorecgwm@fiscali.co.uk neu cgwm@lineout.net

21: Cyngerdd Dathlu 10 Mlynedd y cwmni gan diwtoriaid a myfyrwyr Canolfan Gerdd William Mathias gan gynnwys Iwan Llewelyn Jones (Pianydd); Elinor Bennett (Telynors) a Mary Lloyd Davies (Soprano) 7.30 y.h. Tocynnau £8. Plant £4.

22: Dosbarth Meistr Piano i Athrawon yn Stiwdio 2 Galeri Caernarfon am 10.00 o'r gloch. Dosbarth i athrawon piano gyda Iwan Llewelyn Jones. Tocynnau o'r Ganolfan Gerdd.

Rhif ffôn: (01286) 685230
e-bost: cgwm@lineone.net

Canolfan Gerdd
William Mathias

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CESTYLL BOWNSIO



ar gyfer pob achlysur



MÔN



MENAI

Holwch am ein atyniad arall ar gyfer plant ifanc

Ffôn: Philip (01248) 714068

07800 964713

Gosodwr Teils


Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr

Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

01286 830 805



Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Dodrefn Da am Bris Discount

THE SALES HALL

Y NEUADD ARWERTHIANT

CWM-Y-GLO

Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a
Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a
'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: LLUN - SADWRN 10.30 - 5p.m.

H. E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 7ed o Fehefin. Offrymwyd gweddi agoriadol gan Richard Ll. Jones. Cyfeiriodd Len Jones at farwolaeth dau gyn-gynghorydd, sef Mr John Andrew Griffith a Mr Robin Samuel Evans (Robin Scotch). Penderfynwyd danfon gair o gydymdeimlad ar ran y Cyngor at y ddau deulu a chafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch tuag atynt.

Waliau Cynnal

Croesawyd Mr Neil G. Jones o Adran yr Amgylchedd, Gwynedd. Cyflwynodd Mr Jones eglurhad o'i lythyr (25/03/05). Disgrifiodd wal gynnal fel 600mm +, ni ystyrir un llai na 600mm yn wal gynnal. Cynhelir waliau cynnal gan Wynedd er diogelwch teithwyr ar y ffyrdd a llwybrau cyhoeddus.

Trafodwyd: angen gwella safon golwg yr ardal trwy drwsio waliau yn gyffredinol; does dim yn digwydd i 'Cynllun walio ardal y Llechen'; atgyweirir waliau mewn ardaloedd twristiaid fel Dyffryn Llanberis ac ardal Porthmadog ar draul ardaloedd fel Llanddeiniolen; pam na all cynlluniau 'Tir Gofal/Tir Cymen' ariannu gwelliannau?

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei gyflwyniad adeiladol.

Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y 3ydd o Fai fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Maes Parcio Marchlyn Mawr
Dywedodd Len Jones bod perchnogaeth y tir wedi ei sefydlu o'r diwedd a bod rhybudd wedi ei roi i'r teithwyr fynd oddi yno.

Atebion Gwynedd:

Y cynhwysydd wedi ei symud ymhell oddi wrth Dy Capel Libanus; rhoir sylw i'r gwlliau yn Lôn Penbont a Lôn Tai Castell; yr *anti skid* wedi ei osod ger Groeslon Isa'; torrwyd yr eiddew ger Winllan, Penisa'rwaun a hysbyswyd y perchennog tir i dorri'r tyfiant o'r caeau.

Adroddodd Phyllis Ellis ar ran Aled Green bod drain yn tyfu i'r ffordd ger Tŷ Newydd a Hafan, Penisa'rwaun.

Cyflwynwyd anfoneb G. L. Jones am wneud y cysgodfannau yn ddiogel, cyfeiriodd Len Jones at gwynion bod cysgodfan Rhydfadog bellach yn hollol foel. Penderfynwyd gofyn i G. L. Jones a oes y fath beth a paneli gwrth-fandal a be fyddai'r gost o'u gosod.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Anogwyd y Clerc i

ddanfôn llythyrau i longyfarch y canlynnol: Bethan Williams, Bethel, ar ennill y Fedal Ddrama. Ysgol Brynrefail am fod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y gerddorfa. Ac i'r canlynol o Adran yr Urdd Bethel: Manon Elwyn am fod yn fuddugol ar yr unawd prës o dan 12; Rapsals - Grŵp pop dan 12; Iogwrt Pinc - Grŵp pop dan 15.

Gohebiaethau eraill

Mynedfa ddiogel i Ysgol Rhiwlas.

Cyflwynwyd adroddiad Elspeth Mitcheson a phenderfynwyd pwyso ar Adran Addysg Gwynedd i ateb y cais a gweithredu ar yr hyn sydd ei angen.

Cynllun Cyfartaledd Hil Drafft. Mae'r cynllun ar gael ar www.iechydgywnedd.org

Gwaith Prifffyrdd: Ailadeiladu wal gynnal Pont Glai; Corra Linn i Post Bethel, gwaharddiad trafndiaeth dros dro.

Cynllunio

Dywedwyd bod Wern, Waen Pentir, ar werth a bod yr hysbyseb yn disgrifio'r ysgubor fel annedd stiwdio gyda chegin, 'stafell gawod a lolfa/llofft wrth ben. Ni fu caniatâd cynllunio i hyn. Penderfynwyd hysbysu Gwynedd.

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y Mis

Mynedfa, Stablau a chysgodfa anifeiliaid: Cae Howel, Penisa'rwaun.

Mynedfa newydd (ail gais): Monfa, Brynrefail.

Codi Sied: Ferm Cefn Du, Llanddeiniolen.

Estyniad: Tŷ'n Lôn, Bethel.

Cais a wrthwynebwyd

Datblygiad Preswyl ISC, Rhiw Goch, Clwt y Bont.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad: Maes y Dderwen, Bethel.

Mynedfa: 14 Caeau Gleision, Rhiwlas.

Estyniadau: Bryn y Gwynt, Marchlyn.

Dymchwel ysgubor, ymestyn y Tŷ ac adeiladu stablau: Cae Meta Llanrug.

Estyniad: Lleifior, Nant y Garth (ail gais am estyniad llai).

Estyniad: Tŷ'n y Gadlas, Rhiwlas (ail gais am fodurly llai).

Estyniad: 1 Tai Newyddion, Penisa'rwaun.

Codi lefel tir ac ymestyn cwrtill: Waen Rhythallt, Llanrug.

Cais a wrthodwyd gan Wynedd

Dymchwel adeilad a chodi Tŷ: Buarth Beran, Deiniolen.

Er gwybodaeth

Mae apêl wedi ei wneud i'r Cynulliad parthed y cais cynllunio yn Cae Coch, Brynrefail.

Llwybrau

Derbyniwyd llythyr Mr R. V. Williams (10/05/05) yn dweud na all dorri gwair llwybrau Bethel eleni.

Derbyniwyd pris Mr Webb am dorri gwair llwybrau Penisa'rwaun.

Disgwylir pris Antur Fachwen ar lwybrau Brynrefail/Clwt y Bont.

Dywedodd Len Jones nad yw llwybrau Deiniolen, Dinorwig a Fachwen ar y rhestr ac addawodd gysylltu â'r Clerc.

Disgwylir prisiau am dorri gwair llwybrau Bethel a Rhiwlas.

Ateb Gwynedd

Torrir gor-dyfiant er mwyn asesu cyflwr y llwybr (131), Craig Dinas i Brynrefail.

Adroddiadau

Darllenodd Pat Jones ei chofnodion o gyfarfod y Grŵp ar y 27ain o Fai. 'Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol: Dafydd Einion Jones, Swyddog Datblygu; Rhys Parry, Pennaeth dysgu trwy gydol oes; Keith Jones, Cefndir prosiectau - mynediau; Richard Jones, Trafndiaeth a llwybrau.

Trefnir cyfarfod pellach gan Dafydd Einion Jones, gobeithir y gellir ei amseru fel y gall Len Jones fod yn bresennol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2il o Orffennaf 2005.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

Briwsion Byd Natur Dafydd Guto



MAE NHW YNO

Mae nhw yno, - er inni wario ffortiwn, ran arian, ar bladdwyr bondigrybwyll, - y cyfan er mwyn ca'l gwarad yn llwyr arnyn' nhw! Mae nhw yno, - am eu bod yn mynnu bwyta tyfiant ifanc, a llysia' pydredig. Weithia' maent yn ca'l rhyw newid bychan ran cynnwys eu bwydlen. 'Radag honno, y mae ffwngi, *caws llyffant*, *bwyd y boda* yn g'neud eu tro i'r dim! Dro arall, bodlonent ar f'ytacen, (nid Ken, ond cen!) Gwelir olion eu cannoedd dannedd ar ddail hynod ieuainc. Ânt ati i ddinistrio, a hynny mewn traean o noson, chwys a llafur misoedd o ddygn weithio yn y gerddi. Dyna a rydd enw mor ddrwg iddynt. Gyrrant y garddwyr yn gandryll o'u coeau. Maent wedi eu hela ers yr eiliad fawr honno pryd y gwawriodd ar ddyn ei bod hi'n bosibl tyfu planhigion, a chynhyrchu bwyd. Er eu herlid, y maent yma o hyd. *Malwod* ydyn nhw.

Hebddynt, tlawd iawn fyddai hi ar y *bronfreithod*, *cwningod*, *draenogod*, *llyg*, *llygod bach* a *mawr*, a'r *tyrchod daear*, (*gwaddod*) ac ambell Ffrancwr o Gymro'n ein mysg!

Yn nechra'r flwyddyn 2004 mi roedd Arolwg Adar yn dangos bod *bronfreithod* wedi

lleihau ran nifer, yn enwedig mewn trefi a dinasoedd, a rhoddid y bai am hynny, os gwelwch yn dda, wrth dra'd y garddwyr, am eu bod yn dra-awyddus i weld trefn ar eu gerddi. Y 'nhw', a neb arall, sydd yn gyfrifol am waredu'r gerddi rhag *malwod*, gan amddifadu'r *bronfreithod* o'u hoff fwydydd. Golyga hynny fod *bronfreithod* yn prináu oherwydd prinder bwyd - *Malwod*! Cystal 'chwanegu, â'm tafod wedi ei chlymu'n dynn, na ellir wrth bopeth mewn hyn o fywyd. Ac mor gythreulig o anodd ydy' cael cydbwysedd a chytgord ar adega', yn enwedig ble ceir boda' dynol yn bodoli!

Sy'n dyfod â ni'n ein hola' - at *falwod*. Yng ngwledydd Prydain ma' 'na yn agos iawn i naw deg o wahanol rywogaetha' ohonynt, a'r rheini'n byw ar y tir. Yr un fwyfa' cyffredin ohonyn' nhw i gyd ydy'r *salwen gyffredin*, (*Helix aspersa*) Ma' hon, tra'n dodwy wya', yn g'neud yn sicr fod ansawdd y pridd yn dderbyniol iddi. Ma' madam yn gw'bod i'r eiliad, ac yma clywaf holl arddwyr ECO'R WYDDFA yn ochneidio, pryd ydy'r amsar iawn iddi ollwng un o'i hwyfa' i'r pridd! Nid *malwen* un-wy mohoni chwaith!

Diddorol nodi'n ogystal bod canfod mewn rhai coedwigoedd rai matha' o *falwod* yn brawf sicr fod y planhigion a dyf yno'n oedrannus. Prawf ydy' bodola'th un o fodola'th y llall. Ma' hyn, yn ei dro, yn amlygu rhw'bath mwy, sef os ydy'r goedwig, a'r *malwod*, yn deillio o gyfnod pell yn ôl, yna mae'r holl dyfiant *bloda'*, a *phlanhigion* hefyd o ddirfawr werth, gan eu bod yn ychwanegu at arwahanrwydd ac amrywiaeth, a hynny mewn cynefinoedd, sydd yn y pendraw o bwys enfawr i Gadwraeth.

YSGOL BRYNREFAIL



Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Wedi mynd â chatrawd sylweddol o ddawnsyr ac offerynwyr i'r ddinas fawr dros y Sulgwyn, gwyh oedd teithio'n ôl i heulwen y gogledd gyda chwpan go sylweddol yn ein meddiant. Do wir, fe lwyddodd Band Pres yr ysgol i ENNILL y gystadleuaeth i fandiau neu gerddorfeidd dan

25 oed!! A hynny yn erbyn wyth band neu gerddorfa arall! Ac roedd dros gant o aelodau mewn dwy gerddorfa!! Anhygoel a dweud y lleiaf. A chyda thaith hir yn ôl i Eyrir yn wynebu'r band, ar yr A470 y cawsant hwy wybod fod cwpan am eu dilyn i'r gogledd! Yn ôl rhai, gellid clywed eu sgrechiadau o Gaerdydd, er eu bod yng nghyffiniau Merthyr erbyn hynny!

Llongyfarchiadau gwresog i bawb fu'n cystadlu, ac yn enwedig i aelodau'r band ac i Mr Dewi Griffiths a Mr Bari Gwiliam am eu harweiniad medrus.

Mabolgampau'r Ysgol

Ar ddydd Iau, 9 Mehefin, cynhaliwyd Mabolgampau blynyddol Ysgol Brynrefail. Roedd hi'n ddiwrnod eithaf braf gyda llawer yn awyddys i gystadlu, yn dilyn gohirio'r gystadleuaeth wreiddiol ddechrau mis Mai oherwydd y tywydd. (Roeddem hefyd yn

edrych ymlaen at ddiwrnod cyfan heb wersi!)

Disgwyliid i'r disgyblion gystadlu mewn o leiaf dwy, a dim mwy na phum cystadleuaeth (heb gynnwys y rasmus cyfnewid), ac roedd pawb yn cystadlu yn erbyn eu cyfoedion.

Y cystadlaethau cyntaf oedd y rhedeg, oedd yn cynnwys y 100metr, 200metr, 300metr a'r 800metr. Roedd hefyd digonedd o ddewis o gystadlaethau maes fel taflu picell, disgen a phwysau, a naid hir, uchel a thriphlyg. Roedd nifer dda yn cystadlu yn y cystadlaethau trac, ond roedd tipyn mwy yn cymryd rhan yn y cystadlaethau maes - 38 yn taflu picell ym Mlwyddyn 7!!

Wedi oriau o redeg, neidio a thaflu, ymgasglodd pawb wrth y prif drac ar gyfer y rasmus cyfnewid hollbwysig. Dyma uchafbwynt y dydd i mi oherwydd roeddwn yn cymryd rhan ac roedd pawb wedi dod at y trac i gefnogi eu tai.

Mwynahodd pawb gymryd rhan ond ni all pawb ennill, ac roedd rhai yn sefyll allan yn eu blwyddyn. Dyma restr o'r disgyblion sgoriodd uchaf ymhob blwyddyn:

Genethod


- Bl 7: Eleri Evans (*Elidir*) ac Elin Williams (*Eryri*);
- Bl 8: Victoria Tayloe (*Eryri*);
- Bl 9: Olivia Taylor (*Gwyrffai*);
- Bl 10: Elin Roberts (*Eryri*).

Bechgyn

- Bl 7: Gethin Jones (*Gwyrffai*);
- Bl 8: Tomos Owen (*Gwyrffai*);
- Bl 9: Iwan Arwel (*Eilian*);
- Bl 10: Dewi Foulkes (*Gwyrffai*).



Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cyflwyno Cofnod Michelle Cyster.



Laura, Carmen a Josh yn mwynhau.



Elin a Heulwen yn mwynhau'r achsyr.

Cofnodi Cyrhaeddiad

Mae disgyblion Blwyddyn 11 yng nghanol eu harholiadau erbyn hyn, ond cyn iddynt ffurweliu cafwyd cyfle i'w gwobrwyo am eu holl waith dros y pum mlynedd diwethaf. Trefnwyd prynhawn Cofnodi

Cyrhaeddiad ar eu cyfer, ble cyflwynwyd pob disgybl â thystysgrif a llyfryn yn cofnodi'u holl lwyddiannau yn yr ysgol. Cyflwynwyd y llyfrynau i'r disgyblion gan Gadeirydd y Llywodraethwyr, Mrs Ann Pritchard Jones.



Mrs Sian Harris a Mr Holland gyda buddugwyr pob blwyddyn a chapteiniaid Gwryfai, Katy Williams a Dewi Foulkes, yn y canol gyda'r cwpan.

Ar ôl y canlyniadau, rhaid oedd dewis y ddau ddisgybl a lwyddodd i sgorio'r marc uchaf trwy'r ysgol i gyd. Byddai'r eneth orau yn ennill y Victrix Ludorum a'r bachgen gorau y Victor Ludorum. Eleni enillydd y Victrix Ludorum oedd Elin Roberts o dŷ Eryri a'r Victor Ludorum oedd Dewi Foulkes o dŷ Gwryfai.

Felly dim ond un peth sydd ar ôl - enwi'r tŷ buddugol. Dyma'r marciau terfynol:

Elidir: 818 Eilian: 607
Gwryfai: 899 Eryri: 881

Felly eleni pencampwyr Mabolgampau'r Ysgol am 2005 yw Gwryfai!

Llongyfarchiadau i bawb o bob tŷ fu'n llwyddiannus ac a gymerodd ran. Y flwyddyn nesaf rydw i'n edrych ymlaen at weld yr athrawon yn cystadlu eu hunain!

Zoot Warren, Blwyddyn 8

Cogydd y Flwyddyn

Unwaith eto bu pum disgybl yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth yma. Aeth David Bee, Gwenno Jones, Caroline Evans, Tania Thomas a Jess Parslow trwodd i'r ail rownd. Bu rhaid iddynt baratoi dau saig, un yn defnyddio cig oen Cymreig a'r

llall oedd gwneud pwddin a oedd yn cael ei weini'n boeth.

David Bee enillodd y gystadleuaeth gyda Gwenno Jones yn curo pawb gyda'i phwddin bendigedig!

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n ymwneud â'r gystadleuaeth.



Rhes gefn: Harwys, Katy, Gethin, Dewi, Iwan ac Alaw.

Rhes flaen: Victoria, Andrew ac Esra.

Chwaraeon y Sir

I gyd-fynd â Mabolgampau'r ysgol mae'n dymor athletau trwy Eryri gyfan. Teithiodd carfan helaeth o ddisgyblion yr ysgol i gaeau Treborth i gymryd rhan ym Mabolgampau'r Sir. Mae nifer y buddugwyr yn rhy

helaeth ond yn sicr fe aeth criw arall helaeth ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn erbyn ysgolion Eryri, Conwy a Môn.

Yn y llun gwelir y rhai hynny ddaeth i'r brig, ie dros ogledd Cymru gyfan!

Llongyfarchiadau gwresog i bob un ohonoch.

Anfonwyd yr erthygl i'r Eco gan Sion Jones, Penrhos, Waunfawr, mab Mrs Mary Austin Jones

Y Tecell Copr

Hawdd fydd gennym ddweud ambell waith am hen gelficyn, 'Biti na fuasa hwn yn medru siarad. Mi fuasa ganddo lawer o bethau diddorol i'w dweud, reit siŵr.'

Wel mae un hen gelficyn sydd, ar ôl newid ei berchennog o genhedlaeth i genhedlaeth, ac sydd ar hyn o bryd yn fy meddiant i, yn gallu gwneud hynny mewn ffordd arbennig - a'r tecell copr ydy hwnnw.

Yn hwn y mae llythyrau oddi wrth deulu, perthnasau a chyfeillion wedi eu cadw ar hyd y blynyddoedd. Rhai ohonynt dros gant oed ac eraill yn llawer nes i'n dyddiau ni. Pan fyddaf ambell dro yn edrych drwyddynt, ni allaf lai na dychmygu mai siarad â mi y maent a minnau yn gwrandao arnynt yn dweud yr hanes.

Llythyrau Cymraeg, ychydig, rhyw ddau neu dri efallai o rai Saesneg, fel yr un a ddaeth o Ffrainc adeg Rhyfel 1914-1918. Yr oedd marc coch y sensor ar yr amlen a hefyd farc post crwn a'r geiriau 'Field Post' arno. Y syndod ynglŷn â'r llythyr yma oedd ei fod wedi ei gyfeirio i mi, fy enw a'm cyfeiriad yn llawn. Gan mai plentyn bach oeddwn i ar y pryd ac yn rhy ifanc i ddeall beth oedd yn mynd ymlaen yn y

byd, fy mam, mewn tipyn o benbleth, a agorodd y llythyr.

Fe'i clywais yn adrodd yr hanes lawer gwaith wedi hynny, ac fel y bu'n pyslo uwch ei ben i'w ddarllen, a llwyddo yn y diwedd i ddod i ddeall pethau.

Yr oedd yn arferiad i bobl gael cyfrannu tuag at gysuron y milwyr oedd yn y lluoedd arfog trwy wasanaeth y Groes Goch, a'r modd y gwneid hyn oedd danfon y rhoddion i Miss Annie, fel y galwem hi, merch y Post Betws Garmon, a hithau wedyn yn gwneud un bocsiad mawr yn cynnwys yr holl roddion gyda'i gilydd i'w anfon i ffwrdd.

Yr hyn oedd fy mam wedi ei gwneud oedd rhoi wyau i'w rhoi yn y bocsi ac ar blisgyn yr wyau yr oedd wedi ysgrifennu fy enw a'm cyfeiriad, a dyna sut y daeth y llythyr i mi. Wedi dangos y llythyr i Miss Annie y Post, a oedd mor falch o'i weld, anfonodd hithau ef i swyddfa'r Herald yn Nghaernarfon a chafodd ei gyhoeddi yn y Caernarfon and Denbigh. Er mai mewn pensil 'pensil las' y'i hysgrifenydwyd, mae wedi cadw yn dda rhag pylu, a dyma fel y mae'n mynd:

France
Tuesday
14.5.18.

Dear Miss Pritchard.

I have not been very well for some time a temperature and some pains in the back and limbs and it is only

now that I am feeling a little inclined for some food. Tonight, sister gave me an egg and on it was written from Mary Pritchard, Bryn Afon, Betws Garmon, Caernarfon. North Wales: I thought you might like to know that I enjoyed it and scraped the shell very thoroughly indeed. I am a Doctor attached to This Casualty (ac rwy'n meddwl mai y gair nesaf ydyw) Hearing Ri Australia No 1 B E F. And can bear testimony of the food that is done by you dear people who send us nice things from the Mother Land. As I have the leisure I thought it just what I might and should do to let you know that your efforts are so much appreciated.

With best wishes I am yours
very truly
J Manning

Ac mae dau air arall yn dilyn ond ni allaf wneud allan beth ydynt.

Ydi mae yr hen decell wedi bod yn gyfrwng i 'adrodd' sawl hanesyn ac wedi bod yn lloches i lu o bethau diddorol rhag mynd ar wasgar, neu eu difa yn ddifeddl.

Mae o erbyn hyn yn llawn i'r top a thecell arall wrth ei ochr sydd yn awr yn llenwi, nid mor brysur hwyrach, am fod y teliffon yn gwneud y gwaith yn gyflymach erbyn hyn. Serch hynny mae yn chwith am ambell i lythyr a allai fod yn drysor i rywun arall yn y dyfodol fel ag y mae y rhain i minnau.

MRS MARY AUSTIN JONES,
Penrhos, y Waunfawr

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

website: www.a-v-w.co.uk

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car




YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

COFEB Y CHWARELWYR. Er siom i Ralph a Laura Lewis, Penchwintan, Bangor (Ralph yn frodor o Ddinorwig) methasant ddod i weld dadorchuddio'r Gofeb yn yr Allt Ddu. Fodd bynnag, daethant i fyny ar noson braf i dynnu lluniau a chael sgwrs â dwy gyfnither a fagwyd yn Rhes Victoria, Deiniolen. Un oedd Mrs Peggy Mathews, chwaer Dr Dan Hughes, a'r llall oedd Mrs Minnie Williams, roedd ei gŵr, Mr Ted Williams, yn cadw busnes yn Neiniolen erystalwm ac yn fawr ei barch yn y pentref.

YMDDIHEURAF i Mr Geraint Morris, Becws Cwm-y-glo, gan mai fo a roddodd y gacen ar ddiwrnod dadorchuddio Cofeb y Chwarelwyr, ac nid Selwyn. Diolch yn fawr iawn i Geraint, a gobeithio y caf faddeuant. Mae yr henoed yn yr ardal yn meddwl y byd o Geraint oherwydd yn ogystal â dod â bara iddynt, mae o hefyd yn gwneud llawer o gymwynasau iddynt.

PEN-BLWYDD. Dathlodd Mrs Megan Morris, Minffordd, ei phen-blwydd yn 90 oed ar 12 Mehefin. Llongyfarchiadau mawr iawn ichwi a dymunwn bob bendith a iechyd ichwi i'r blynyddoedd a ddol.

Ar 15 Mehefin, dathlodd Mrs Katie Lloyd Hughes, sydd yn cartrefu yn Plas Garnedd, ei phen-blwydd yn 91 oed. Llongyfarchiadau mawr a dymunwn yr un bendith ac iechyd i'r blynyddoedd i ddod iddi hithau.

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau o'r Clwb uchod yn Blue Peris ar 9

Mehefin i ddathlu pen-blwydd Mrs Megan Morris yn 90 oed. Wedi'r cinio bwffe cyflwynodd y Llywydd, John Cantrell, rodd o flodau iddi.

Enillwyd y gwobrau raffl gan Alice Griffith, Betty Roberts a Morfudd Jones. Bu trafod ble i fynd ar y teithiau haf ac atgoffwyd yr aelodau i gyfrif y 5 ceiniogau sydd wedi eu casglu ganddynt ar gyfer yr Ambiwylans Awyr. Anfonwyd cyfarchion pen-blwydd yn 91 oed a dymuniadau da yr aelodau i Katie Lloyd Hughes.

Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r cymorth a gafwyd gan sawl un ar ddydd dadorchuddio Cofeb y Chwarelwyr, ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd, a'r nifer o negeseuon o werthfawrogiad a anfonwyd atom yn diolch am y cyfle i gyfarfod â hen ffrindiau bore oes ac i ymweld â'r hen ardal.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs Humphrey Jones, Caeau Gleision, Rhiwlas, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdigion Maes Eilian, am y galwadau ffôn, cardiaid a'r rhoddion a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth fawr o golli Gwion, eu hunig fab, yn 32 oed. Bu hyn o gymorth mawr iddynt yn ystod y dyddiau tywyll. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu o gymorth iddynt.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, wedi cael dod adref erbyn hyn ar ôl cyfnod yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Gobeithio y byddwch yn gwella yn reit fuan, Mrs Thomas.

ac Ordovig, sef enw'r llwyth cyntefig ffyrnig a oedd yn byw ar lethrau'r Wyddfa yn y cyfnod cynoesol.

Llys Dinorwig: Wedi ei leoli yng nghyffiniau Brynrefail, roedd y llys canoloesol yn gyrchfan poblogaidd i feirdd y gogledd. Penododd Edward I y gwladgarwr, Syr Gruffydd Llwyd, i ofalu am y Llys lle bu'n hael iawn ei nawdd tuag at y beirdd a alwai heibio i glera.

Marged Fwyn: Roedd Marged Fwyn yn cadw tafarn ar lan Llyn



Marged Fwyn ach Ifan (Cadi Murphy).

Padarn. Roedd yn ddynas nobl a chryf a hoffai ymaflyd codwm â hogia ifanc y fro. Y ffeminist cyntaf



Rhitta Gawr (Dewi Meirion).

Copa Cabàn

Dyma ail gyfle i weld y sioe gerdd 'Copa Cabàn' gan aelodau Rygarug. Comisiynwyd y sioe yn wreiddiol er mwyn cyflwyno rhai o gymeriadau chwedlonol a hanesyddol y fro i gynulleidfa leol. Yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau bydd cyfle i gynulleidfa ehangach, o bob cwr o Gymru, ddod i adnabod cymeriadau difyr a dyrys fel Marged Fwyn ach Ifan (Cadi Murphy) a Rhitta Gawr (Dewi Meirion). Bydd digon o hwyl, canu a dawnsio wrth i Thelma, Fritz a Pedro geisio ennill y tendar i godi caffi newydd ar gopa'r Wyddfa. Ar eu taith yn y 'car gwib' maent yn ymweld â llwyth cyntefig yr Ordofigiaid, Llys Dinorwig, pentrefwyr Llanrug, gwaelod Llyn Padarn ac ogof y Brenin Arthur.

I wybod mwy am yr helynt... dewch i gefnogi Rygarug ar nos Fawrth, 2ail o Awst yn Galeri Caernarfon.

Mae tocynnau ar gyfer y perfformiad ar gael o Swyddfa Docynnau'r Galeri ar (01286) 685222.

Dyma flas ar rai o'r cymeriadau a'r lleoliadau a fydd yn ymddangos yn y sioe:


Rhitta Gawr: Cawr creulon a luniodd glogyn allan o farfau ei elynion. Ei fedd, yn ôl y sôn yw'r Wyddfa.

Car Gwib: Defnyddia'r chwarelwyr y car gwib i deithio i lawr yr inclein ar ddiwedd diwrnod o waith. Enw arall yn lleol yw'r 'car gwyllt'.

Ordofigiaid: Mae enw pentref Dinorwig yn tarddu o Dun (Caer)

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820



'YR HEIGHTS' YN CYRRAEDD YR UCHELDERAU. Ar yr ugeinfed o Fehefin, yn Morbegno, gogledd Yr Eidal, mewn amffitheatr o dan y sêr wrth droed mynyddoedd Yr Alpau, roedd cannoedd o bobl wedi ymgynnull i wrando ar fand. Ac nid band Eidaleg mohonynt ond 'The Heights' ('Gogz' gynt) - wedi teithio i'r dref, sydd bellach yn efaill i Lanberis, fel rhan o gynllun cyfnewid rhwng y ddwy dref. Pwy fyddai wedi dychymygu clywed criw o Eidalwyr yn cyd-ganu i rai o glasuron pop y Gymraeg ac wrth eu boddau yn gwneud hynny!

LLONGYFARCHIADAU i Luke a Vicky, 4 Glanrafon, ar enedigaeu eu mab bach yn ddiweddar. **FFAIR NANT.** Cynhelir Helfa Drysor yr ŵyl ym mis Gorffennaf eleni - gan ei bod yn tywyllu'n rhy gynnar fis Medi a rhai'n chwilio am gliwiau efo fflachlamp!

Cychwynnir y daith o faes parcio Ty'n Llan ar bawn Sul y 10fed o Orffennaf am 5.00 o'r gloch. Codir £1 y pen am bob un sy'n mynd ar y daith ac fe fydd cinio Dydd Sul ar gael ar ddiwedd y daith (ble bynnag y bydd

hwnnw!) £5.75 yw pris y cinio (a fydd yn rhatach i blant) a gallwch ffonio Anne ar 01286 870284 i gofrestru eich enw.

Bydd rhaglen o gystadlaethau crefft y Ffair ar gael cyn bo hir. Ffoniwch Gwenda am fwy o wybodaeth - 01286 872177

PEN-BLWYDD HAPUS i Amanda Welsby a fydd yn 40 ddechrau'r mis - pob hwyl ar y dathlu!

CLWB CANT CYFEILLION EGLWYS SANT PERIS. Enillwyr mis Mai yw: Ceinwen Williams - £25; Simon Stacey - £10; W. A. Evans - £5 (diolch i Wil Arthur am roi'r arian yn ôl i'r gronfa)

CARNIFAL. Mewn pwyllgor diweddar penderfynwyd cyfrannu elw Carnifal y llynedd fel â ganlyn: £150 Ambiwylans awyr; £150 Ysgol Pendalar; £150 i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Cynhelir Carnifal eleni ar nos Wener, Gorffennaf 23ain, ym maes parcio'r pentref. Dewch yn llw am ddigon o hwyl!

FFAIR NANT. Cyfranwyd cyfanswm o £500 at apêl yr ambiwlans Awyr eleni. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

o bosibl - roedd Marged yn enwog am rwyfo pobl a nwyddau ar draws y llyn, am adeiladu cychod, am gerfio telynau a'u canu, am bedoli ceffylau ac am hela a physgota. Bu farw yn 1780 yn 90 oed.

Ala: Gwrach yn byw mewn bwthyn ar lethrau Cefn Du, gerllaw Llanrug, oedd Ala. Roedd ganddi berllan yn llawn afalau melys ac un diwrnod aeth bachgen o Dan-y-coed i'r berllan a dwyn afalau. Rhoddodd Ala'r Wrach ei melltith arno a bu'n rhaid i'w fam ymbil yn daer arni i godi'r swyn.

Afanc - Llun: Anghenfil tu hwnt o ddrewilyd sy'n byw yn Llyn Glaslyn yw'r Afanc. Mae ganddo sŵn dychrynlyd a gwae chi os dewch ar ei draws!

Ogof Arthur: Clwyfwyd Arthur ym Mwlch y Saethau tra'n ymladd y Saeson. Aeth y milwyr ag ef i fyny llethrau Lliwedd a chael hyd i ogof lle aethant i gyd i gysgu i aros ailddyfodiad Arthur i adfer tiroedd y Cymry.



Pedro Pesetas (Daniel Ellis).

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YSGOL GYMUNEDOL

Gala Nofio. Bu disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth Gala Nofio yn y Ganolfan Hamdden ar y 14/05/05. Daeth yr ysgol yn 4ydd yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i Molly Thomas am ddod yn 3ydd yng Nghystadleuaeth Broga Bl.3 a 4; Catrin Heledd yn 2ail yn y Nofio Rhydd Bl.5; Claire Donnelly yn 1af dull Pili Pala Bl.5; Carwyn Fon yn 2ail Nofio Rhydd Bl.6; Dewi Griffith yn 2ail dull Cefn Bl.6; Catrin Heledd 2ail dull Cefn Bl.6; Sion Dafydd 1af dull Broga Bl.6; Kieran Mc Guinness 2il Dull Pili Pala Bl.6; Catrin Jarvis 3ydd dull Pili Pala Bl.6 a daeth tîm Bl.6 yn gyntaf yn y Ras Gyfnewid. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

Gweithdai Celf Cwmni Frân Wen. Mae Blynyddoedd 5 a 6 wrthi'n brysyr yn paratoi setiau ar y cyd â Mari o Gwmni Frân Wen ar gyfer sioe fydd yn cael ei chynnal gan y cwmni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol. Pwy a wŷr efallai mai ar y rhaglen 4 Wal neu *Changing Rooms* y byddant nesaf?!

Roedd sŵn ym Mhortinllaen, sŵn plant yn joio!! Aeth dosbarth derbyn, a blwyddyn 1 a 2 ar drip addysgol i Bortinllaen ar ddydd lau, Mai 26. Roedd yn fore glawog, niwlog, cymylog a diflas iawn ond erbyn cyrraedd Pen Llŷn roedd haul poeth yn tywynnu.

Cafodd pawb amser wrth eu boddau yn cerdded ar hyd y traeth o Forfa Nefyn i Borthdinllaen; stopio am bicnic a huben iâ yn Tŷ Coch ac ymlaen i gyfarfod â chriw y Bad Achub. Cafodd pawb gyfle i fynd fewn i'r Bad Achub a chafodd Jordan wisgo siaced achub 'go iawn'.

Wedi cyrraedd yn ôl drwy'r Maes. Golff roedd pawb wedi blino'n lân ond wedi mwynhau'n ofnadwy. Ysgwn i gawn ni ymateb i'r neges oedd yn y botel?

Diolch a phob lwc. Dymuna'r ysgol ddiolch o galon i Carys Hughes o Goleg Menai sydd wedi bod yn ein plith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Pob lwc gyda'r cwrs.

Awn ar y Trên Bach i Ben y Wyddfa Fawr. Wel sôn am ddiwrnod a hanner! Aeth disgyblion ysgol gyfan a holl staff yr ysgol i fyny'r Wyddfa ar y trêr ar 17 Mehefin. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy er nad oedd modd gweld llawer o gopa'r Wyddfa, ond er y tareth cafodd pawb ddiwrnod hwyliog iawn.

Gweithgareddau i ddod. Bydd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ymuno ag Ysgol Gynradd Llanrug ar y 20 Mehefin ar gyfer gweld cynhyrchiad o'r Sioe 'Y Daith' gan gwmni Frân Wen.

Sioe Gerdd. Bydd disgyblion yr Ysgol yn perfformio Sioe Gerdd "Tân ar y Comin" yn yr ysgol ar bawndydd Mercher, 13 Mehefin a nos lau, 14 Mehefin. Bydd tocynnau ar gael o'r Ysgol.

Mabolgampau. Cynhelir Mabolgampau'r ysgol ar 15 Mehefin am 1:15. Croeso cynnes i rieni ymuno yn yr hwyl.

Sw Caer. Bydd yr ysgol gyfan a'r staff yn ymweld â Sw Caer ar y 19 Gorffennaf.

Croesi i'r ysgol. Gan fod plant

Blwyddyn 6 yn mynd ar ymweliad ag Ysgol Brynrefail dydd Gwener, Gorffennaf 1af byddwn yn symud y dosbarthiadau eraill i fyny am y diwrnod. Golyga hyn y bydd plant dosbarth meithrin yn cael aros yn yr Ysgol trwy'r dydd. Bydd croeso iddynt gael cinio ysgol neu ddod â phegyn bwyd. Mae croeso hefyd i'r plant fydd yn ymuno â'r dosbarth meithrin ym mis Medi ddod i'r ysgol o 9 tan 11 o'r gloch ar y diwrnod yma. Edrychwn ymlaen at eich gweld.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd: Arwel Jones, Cae Eboni; Mrs E.J. Williams, 2 Bryntirion; Victor Jones, 11 Bryntirion.

Bu'r MIRI MAI yn llwyddiant mawr a gwnaed elw o dros £200 ar y noson. Dymunir diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd.

TAITH CERDDEDD LLWYBRAU fydd y gweithgaredd nesaf, ar 9 Medi, a hynny yng ngofal Mr Larsen. Felly dowch i ymuno â ni er mwyn eu cadw ar agor.

CRONFA'R HENOED. Enillydd Pêl Bonws Loteri Mai oedd Mrs Elinor Jones, 2 Bron y Waun. Llongyfarchiadau a diolch i bawb am y gefnogaeth.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Pnawn Sul, 19 Mehefin, ymunodd y plant â phlant Capel Seilo, Tregarth, a Chapel Ebeneser, Caernarfon, ym Miri Mehefin, Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon. Fe fwynhaodd pawb eu hunain yn ymuno yn y caneuon bywiog a gwrando ar sgwrs ddifyr Ffiona Edwards. Yn binacl ar y cyfan fe gafwyd te parti ardderchog yn y Ffestri a phawb yn cymdeithasu'n braf.

Dymunir diolch i aelodau Capel Ebeneser am y fath wledd ac i Bwyllgor y Gymanfa am bawn difyr a chyfeillgar dros ben.

Bnawn Sul, 26 Mehefin, bu'r plant yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yn Eglwys Llandinorwig. Diolch iddynt am eu ffyddlondeb ac am eu gwaith graenus.

Fel gwerthfawrogiad o'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul, bydd Trip ar Sadwrn, 9 Gorffennaf, yn mynd i Cheshire Oaks a gorffen yn y Ffair yn Rhyl. Bydd y bws yn cychwyn o Groesffordd King am 8.30 y bore. Mae rhai seddau ar gael, cysyllter â Liz (872421) neu Ann (872405). Pris £8 i oedolion a £4 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Gobeithio'n wir y bydd yr haul yn tywynnu.

SBRI'R YSGOLION SUL, HENADURIAETH ARFON ar 10 GORFFENNAF. Gan obeithio na fydd y plant wedi ymlâdd ar ôl y Trip, byddwn yn ymgynnull o flaen yr Ysgol Gymuned am 1.45 i fynd i Ysgol Brynrefail. Dyma gyfle i wneud ffrindiau newydd a chael ymuno eto mewn amrywiol weithgareddau diddorol a phrofi fod Ysgol Sul yn gallu bod yn hwyliog dros ben.

AILDDECHRAU. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn **fore Sul, 11 Medi.** Croeso cynnes i aelodau newydd. **GWELLHAD.** Deallir fod Osian, Cae Corniog Bach, wedi derbyn

triniaeth i'w law yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio dy fod yn gwella, Osian. Ein cofion annwyl at bawb arall sy'n sâl yn y pentref. Brysiwch wella i gyd.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Pen-blwydd hapus a llongyfarchiadau i Carys, Cae Eboni, ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar 25 Mehefin. Trwydded bws rŵan, Carys!

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Mae'n argoeli'n Steddfod lwyddiannus a llewyrchus. Gobeithio'n arw y bydd y tywydd yn ffafriol a'r drafnidiaeth yn hwylus.

Dymunir pob bendith a llwyddiant i'r rhai fydd yn cystadlu'n unigol neu mewn partïon a chorau ac yn cymryd rhan mewn cyngherddau.

Y dymuniadau gorau i Mr Selwyn Griffith ar gychwyn ei dymor fel Archdderwydd ac i Heulwen Evans a Hyfforddwyr y Ddawns Flodau.

CROESO. Estynnir croeso cynnes iawn i'r cerddor, Dr Munro, nai i Mr Munro, Tŷ Capel gynt. Y mae wedi ymgartrefu yn 8 Llys y Gwynt.

Croeso hefyd i Mrs Annie Roberts, sydd wedi dod i fyw i 11 Llys y Gwynt. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith ac yn ymuno yn ein hamrywiol weithgareddau.

DWY YN DATHLU. Bydd dwy yn dathlu pen-blwydd arbennig y mis hwn a mis Awst. Bydd Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr yn 80 oed ar Sadwrn, 25 Mehefin, a Mrs Rennie Morris, 2 Llys y Gwynt, yn 80 ym mis Awst. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch a phob bendith.

ARHOLIADAU. Llongyferchir Iwan Glyn, Tawelfa, ar dderbyn Gradd Anrhydedd BA mewn Hanes ac Archaeoleg ym Mhrifysgol Bangor. Da iawn ti, Iwan, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Gobeithir clywed newyddion da am eraill eto wedi'r amrywiol arholiadau. Cofiwch adael i ni wybod - rydym mor falch o'ch llwyddiannau.

EGLWYS SANTES HELEN. Anfonir y dymuniadau gorau i'r Parch Tegid Roberts ar ei swydd fel Ficer Plwyf Llandwrog a Llanwnda.

Gobeithir trefnu Carnifal yn fuan ym mis Medi. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnell diggers bychain
ac excavators 360° newydd a llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277




Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YR YSGOL GYNRADD

Llongyfarchiadau i'n hathrawes Dsbarth Meithrin, Mrs Rhian Hughes, a Mr Hughes a fu'n dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i'n gweinyddes feithrin, Mrs Maureen Pierce, ar enedigaeth wyr bach. Ganwyd Lucas i Dylan a Portia.

Taith Caerdydd. Yn flynyddol bellach mae disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yn cael cynnig mynd ar y daith addysgol i Gaerdydd, ac eleni roeddynt yn cael aros yng Ngwersyll yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm am ddwy noson. Tri diwrnod llawn o deithio ac ymweliadau. Mae'n rhaid canmol y plant am eu hymddygiad wrth ymweld â'r Amgueddfa Lofaol ym Mhwl Mawr, Blaenafon; Amgueddfa Werin Sain Ffagan a'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd eu diddordeb a'u dyfalbarhad i ddeall y gwahanol weithgareddau yn Techniquet a'u hymateb i'r wraig a gyflwynodd weithdy gwyddonol diddorol iddynt yn werthfawrogol iawn. Credaf i bob un ohonynt gael budd a mwynhad o'r profiad a diolch iddynt am fod yn blant da. Bydd yr athrawon yn edrych ymlaen at fynd â hwy eto ar daith o'r fath.

Cystadlaethau Chwaraeon - Nofio. Aeth criw o blant yr ysgol i gystadlu yng Ngala Nofio Arfon yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Cafwyd cystadlu brwd a derbyniodd nifer ohonynt dystysgrif am eu llwyddiant.

Rygi. Aeth dau dîm rygi o'r ysgol i gystadleuaeth Rhanbarth Arfon, Tarian Clive James. Wedi'r gemau caled daethant yn ôl yn falch iawn ohonynt eu hunain; wedi chwarae'n dda a llwyddo i ddod i'r gêm gynderfynol, am y tro cyntaf yn hanes Ysgol Llanrug. Tim Bethel a orfu a hwy yw'r pencampwyr.

Tenis. Dydd Mercher, 8 Mehefin, aeth chwe thîm o'r ysgol i gymryd rhan yn Nhwrnament Tennis Ysgolion Gwynedd yng Nghaernarfon. Cafwyd gemau cyffrous iawn rhwng y gwahanol ysgolion. Cafodd tîm genethod Blwyddyn 6 a thîm genethod Blwyddyn 3 lwyddiant arbennig drwy ennill eu cystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i bob un fu'n cymryd rhan a dymunwn yn dda hefyd i'r rhai fydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Mabolgampau yr Urdd, a gynhelir nos Lun, 20 Mehefin ar gae Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Bydd y rhai llwyddiannus yno yn mynd ymlaen i'r cystadlaethau Sirol ar gaeau Treborth ar 30 Mehefin.

Gwaith Thema. Fel rhan o'u thema 'Mynd am Dro' aeth disgyblion Blynnyddoedd 1 a 2 am dro i Lanberis i weld ardal mor dlws rydym yn byw ynddi a phethau mor ddiddorol sydd yno i ymwelwyr hefyd. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi blino ar ôl yr holl gerdded. Ar ôl dod yn ôl maent wedi rhannu peth o'r atyniadau a'r golygfeydd gyda ni drwy waith tynnu llun a phaentio.

Gwaith Celf. Yn ystod y tymor bu Luned Parry, artist breswyl, yn gweithio'n galed gyda disgyblion Blynnyddoedd 2 a 3 yn creu murlun o brysurddeb pentref Llanrug. Mae'r murlun i'w weld yng nghyntedd adran y babanod.

Rydym yn tynnu at ddiwedd tymor a therfyn blwyddyn arall ym mywyd yr ysgol. Gyda'r nosweithiau rhieni drosodd caiff y plant edrych ymlaen

at drip ysgol a'r mabolgampau. Os y cawn dywydd braf bydd popeth yn iawn.

Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn cael treulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail, a diolch am eu croeso. Dymunwn yn dda iddynt yno ym mis Medi.

Bydd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cael treulio ychydig ddyddiau yn crwydro o amgylch ardal Rhyd-ddu gan aros noson yng Nghanolfan yr Hen Ysgol yno.

Bore Llun, a hithau'n fore braf cafodd disgyblion Blwyddyn 4 fynd ar daith i Blas Tan y Bwlch, Maentwrog. Yno cawsant gyfle i wneud gwaith bio-amrywiaeth, yn astudio planhigion a chreaduriaid bach. Daethant yn ôl wedi mwynhau y profiad yn fawr.

Dymunwn wyliau hapus i bob un ohonoch a chofiwch beth rydym yn ddweud wrthyb bob diwedd tymor - cymerwch ofal mawr, yn enwedig ar y ffyrdd prysur. Gwelwn chi i gyd yn ôl ddechrau mis Medi.

PRIODAS. 26 Mai, yng Nghapel y Bryngwyn, gyda'r Parch Gwyn Eryl yn gwasanaethu, priodwyd Gwyn, mab Gareth a Megan Roberts, Gregynog, a Tracey, merch David a Pat Parry, Hen Efail, Marianglas. Byddant yn ymgartrefu yn Tegfan, Gwêl y Don, Pentraeth.



DIOLCHIAU. Dymuna teulu'r diweddar John R. Rowlands (JR) Llys Forgan, estyn eu diolch cywiraf i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli Priod, Tad, Taid, Brawd ac Ewyrth annwyl iawn. Diolch yn arbennig i hogia'r ambiwlans, staff Ysbyty Gwynedd, Dr Robin Parry a holl staff meddygfa Lanberis a Llanrug. Diolch i'r Parchedigion Iwan Ll. Jones, Porthmadog; W.R. Williams, Amlwch a Gwyn Jones, Porthaethwy am wasanaeth angladdol teilwng a chryno. Gwerthfawrogwyd cyfraniad Mrs Mair Hughes wrth yr organ ac aelodau Capel Bryngwyn am eu cymorth dydd yr angladd. Casglwyd £1,200 at Gymdeithas Clefyd Siwgr Cymru a Meddygfa Lanberis. Roedd holl drefniadau'r angladd dan ofal graenus yr ymgymerwr, Mr Gareth Owen, Y Fali.

DIOLCH. Dymuna Mrs Kathleen Jones, Kemand, Ffordd Glangfynnon ddiolch yn arw i'w theulu a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Hefyd, fe ddymuna Angela Roberts, Nant y Glyn, ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion dderbyniodd hithau tra y bu yn Ysbyty Gobowen.

Mae David a Sarah yn diolch i bawb yn ardal Llanrug ac Ynys Môn

am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Oliver (wyr cyntaf i Wyn ac Angela).

GWELLHAD BUAN. Pob dymuniad da i Gwenda Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchiadau i Arwyn hefyd ar ddathlu pen-blwydd arbennig!

Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb Cant am Fehefin oedd:

£20: M. Jones, 21 Rhos Rug; £7: Mrs C. Griffiths, Tan y Fron, Lôn Groes; £5: H.M. Parry, Wenllys.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Gwynfor Humphreys, Rhoslan, Stad Minffordd, yn eu profedigaeth o golli Mam, sef Mrs Humphreys, Rhosgadfan. Colled fawr i Delyth ag Awen hefyd.

PWYLLGOR EISTEDDFOD. Mae'r casglu yn dirwyn i ben ac mae'r swm terfynol wedi ei gyrraedd, sef dros £9,000. Cafwyd noson o 'Gyri a Chwrr' yn Nhafarn Penybont gyda

diolch mawr i Geraint a Wendy am ganiatáu y noson ac am roddi y bwyd am ddim. Diolch i'r trefnwyr, Anne a'i ffrindiau, a diolch am y gefnogaeth a ddaeth â £247 i'r coffrau.

Bydd y noson olaf ar ddydd Gwener, 8 Gorffennaf, drwy dynnu'r raffl fawr yn y Sefydliad Coffa.

Dymuna'r Pwyllgor yn Llanrug, ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu a chefnogi mewn unrhyw ffordd ac fe edrychwn ymlaen i Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau lwyddiannus iawn.

MARWOLAETH. Yn dawel, bu farw Mrs Betty Peris Jones, Egryn Villa gynt. Roedd wedi cartrefu yn yr wythnosau olaf yng Nghartref Nyrso Penisarwaun, lle y cafodd ofal tyner iawn.

Cydymdeimlwn â'i theulu, ymhell ac agos.

BABI NEWYDD. Croeso i chwaer fach Cara a merch i Chris a Ceryl, Groeslon Marc, a wyres newydd i Anwen ac Elwyn Roberts, Elan Wen.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Iau, 16 Mehefin, daeth yr aelodau ynghyd i'w cyfarfod yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri, dan lywyddiaeth Pat Jones. Croesawodd y Llywydd y wraig wadd, Margaret Davies, Dwyran. Adroddodd yn ddiddorol am y modd y cychwynnodd gynhyrchu y caws sy'n enwog erbyn hyn, sef Caws Gorau Glas. Y llywydd enillodd gosyn o'r caws rhoddedig ganddi. Paratowyd lluniaeth gan Mai Davies a Valmai Owen, a hwy hefyd benodwyd i gynrychioli'r gangen i stiwardio ym mhabeil Sefydliad y Merched ar faes Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau. I gloi gweithgareddau'r haf cynhelir y Trip Dirgel blynnyddol nos Iau, 28 Gorffennaf.

COFION. Anfonwn gofion a dymunwn wellhad buan i nifer o'r pentrefwyr. Yn Ysbyty Gwynedd derbyniodd Mr David Mullen, 2 Trem Eilian, lawdriniaeth a threuliodd Mr Norman Williams, Godre'r Coed, gyfnod byr. Mae Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, wedi cael nifer o anhwylderau yn ddiweddar ac yn ystod yr wythnosau yma mae Mr Islwyn Jones, 3 Trem Eilian, yn derbyn triniaeth. Brysiwch wella i gyd.

PROBLEM TRAFNIDIAETH. Daeth i sylw bod Cwmniau Bysiau sy'n codi teithwyr o'r pentref ar eu taith i Lanberis, Caernarfon a Bangor yn amharod bellach i alw yn y pentref cyn wyth o'r gloch y bore ac ar ôl hanner awr wedi pump y nos, oherwydd y broblem a achosir gan foduron sy'n cael eu parcio ar hyd stryd y pentref. Mewn rhai manau mae hynny yn ei gwneud yn gwbl amhosibl i'r bysiau gael ffordd glir drwodd. Mae llawer o drigolion yn dibynnu ar y gwasanaeth bysiau ac mae hon yn broblem fydd yn rhaid ei datrys yn fuan, yn arbennig er lles y rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

DIOLCH. Aeth noson plygu rhifyn Mehefin o'r Eco ymlaen yn hwylus a brwdfrydig. Roedd y cyfleusterau yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri wrth fodd y criw da ddaeth ynghyd i sicrhau gorffen y gwaith yn brydlon. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS. Nos Iau, 12 Mai, dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir, daeth cynulliad da o'r aelodau ynghyd i Ganolfan

Dylunio a Menter Eryri i gyfarfod o'r Gymdeithas. Yn dilyn myfyrdod am dymor yr haf gan y llywydd, cyflwynodd y gŵr gwadd, sef Mr John H. Hughes, Llanberis. Fe'n tywyswyd ganddo drwy fro ei febyd, sef ardal Rhostryfan, gan gyfeirio at adeiladau hanesyddol y pentref a chymeriadau diddorol yr ardal yn ystod ei blentyndod. Cafwyd gair o ddiolch gwresog ar y terfyn gan y llywydd a chyfraniadau gan aelodau a oedd hefyd â chysylltiad â'r pentref. Paratowyd y lluniaeth i ddilyn gan Eleanor Jones, Na Nog, ac Ellen George, Sŵn yr Engan.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 14 Gorffennaf, yn y Ganolfan pryd y disgwylir Mr Geraint George i sgwrsio ar y testun 'Tirlun a Thirwedd'.

OEDFAON GORFFENNAF.

- 3: Parch Gwilym Parry, Llanfairfechan am 5.30;
- 10: Parch Emlyn Richards, Cemaes am 2.00;
- 17: Mr Maldwyn Thomas, Bangor am 10.00;
- 24: Parch John Owen, Bethesda am 5.30 - pryd y gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;
- 31: Uno yn oedfaon Pafiliwn Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau

CWIS

Cynhelir cwis mawreddog er mwyn codi arian ar gyfer

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI

Nos Lun, 11 Gorffennaf am 7 o'r gloch

yn Y CABAN, Brynrefail

Addas ar gyfer y teulu

cyfan - hen ac ifanc

Timau o 2-6 aelod

Pris cystadlu: £2 y pen

i bob aelod o'r tîm

Tlws arbennig i'r tîm buddugol!

Raffl Fawreddog!

Lluniaeth traddodiadol Cymreig

Noson o hwyl a chymdeithasu

a chyfle i bentre Brynrefail

gefnogi ymweliad ein

Prifwyl i Eryri

DEWCH YN LLU

Enwau'r timau sydd am gystadlu i

Geraint George, Sŵn yr Engan

(01286 872306) erbyn 9 Gorffennaf

os gwelwch yn dda.



Ar Ben Arall y Lein

Os yw'ch diddordeb mewn 'sgota afonydd, wel yn ystod y mis diwethaf y lle gorau i fod oedd yn tacluso'r ardd! Dim dŵr yw'r rheswm, wrth gwrs, ond dyma ble mae aelodau'r Gymdeithas yn ffodus. Os yw'r ysfa yn rhy gryf mae'n bosib troi am y llynnoedd ac mae Cwellyn a Nantlle wedi 'sgota'n eithriadol o dda ers canol Mai. Mae hwyl arbennig i'r rhai sy'n gwneud defnydd o'r cychod. Wrth gwrs, brithyll gwyllt sydd yma, ac mae'r 'sgota ymysg y gorau drwy'r wlad.

Mae tynfa fawr arall wedi bod am Lyn y Dywarchen, ble mae'r polisi stocio eleni yn gweithio'n ardderchog. Rhan o hyn yw fod y gwaith o uwchraddio'r ddeorfa wedi bod yn mynd ymlaen ers tros flwyddyn. Mae criw ffyddlon yno sy'n cario allan y gwaith gwirfoddol gyda safon a brwdfrydedd. Diolch o galon.

Mae tystiolaeth o boblogrwydd ein llynnoedd yn y cynnydd blynyddol a welwn yng ngwerthiant tocynnau dyddiol ac wythnosol. Mae perchnogion a staff y Cwellyn Arms, Rhyd Ddu, yn gwneud gwaith ardderchog yn y maes yma. Mae awyrgylch y gwesty a'r cyfle i 'sgota yng nghysgod yr Wyddfa, yn enwedig, yn brofiad arbennig.

Gan fy mod wedi cyffwrdd ar y ddeorfa, mae'n siom fawr i lawer o'r aelodau nad yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r fenter. Mae'n amlwg nad ydynt yn sylweddoli (neu, yn fwy na thebyg, ddim eisiau sylweddoli)

pa gyfraniad y gallai'r safle yma wneud i hybu economi'r ardal. Bydd yn rhaid ceisio cael trafodaeth gyda hwy i'r perwyl yma. Mae'n anodd credu fod asiantaethau ac awdurdodau sydd i fod i wasanaethu'r cyhoedd, ac sy'n cael eu rhedeg gydag arian y trethdalwyr, yn gyndyn iawn o wrando a gweithredu ar beth mae'r cyhoedd yn dymuno iddynt wneud. Efallai rhyw dro y daw haul ar fryn.

Wrth ystyried y gwaith mae'r aelodau (rhai ohonynt o leiaf) yn wneud i dacluso a gwarchod amgylchedd y fro, mae rhai pobl yn cymryd diddordeb mewn dadwneud y gwaith da. Er enghraifft, yn ddiweddar mae rhyw greaduriaid wedi dechrau malu'r pontydd a'r meinciau sydd wedi eu gosod ar y Seiont, neu i ddefnyddio'r enw cywir, Afon Rhythallt, ger Cwm-y-Glo. Mae'r gwaegi ar drywydd y troseddwyrr!!

Yn ystod yr wythnosau nesaf gobeithiwn y bydd glanfa fechan newydd wedi ei hadeiladu fel rhan o'r lanfa bresennol ar Lyn Nantlle, i alluogi'r rhai sy'n ddibynol ar gadeiriau olwyn i defnyddio'r cwch arbennig sydd ar gael yno. Gobeithio y gwelir defnydd o'r adnodd yma gan mai dyma un o'r ychydig llynnoedd ble mae cwch o'r fath i'w chael i allu pysgota am eog a sewin. Bydd gwobr ar gael i'r un a fachith y sewin cyntaf gyda'r cwch.

HUW PRICE HUGHES

Elusen Chernobyl/Children Lifeline

Gair o ddiolch i bawb yn Waunfawr a fu mor hael â chyfrannu tuag at yr ymgyrch ddiweddaraf i godi pres i blant Chernobyl. Codwyd bron i £50 tuag at yr achos. Diolch eto am eich haelioni a'ch parodrwydd i helpu o hyd.

Bydd yna chwech o blant Belarus yn dŵad drosodd i Gymru ym mis Gorffennaf ac yn aros hefo teuluoedd yng Ngwynedd; pedair ohonynt wedi bod yma o'r blaen ac yn dŵad yn ôl. Mae un ferch, sef Marina, yn dychwelyd am y pedwerydd tro, ac yn aros efo teulu yng Nghaernarfon. Mae hi erbyn hyn yn bedair ar ddeg oed ac yn ferch annwyl iawn, ac angen dod yma oherwydd ei hiechyd. Cofiwch os gwelwch hi o amgylch Lloches, siaradwch efo hi, mae'n deall Saesneg yn weddol dda. Maent yn aros yng Ngwynedd am fis cyfan.

Bydd y grŵp nesaf wedyn yn dŵad ym mis Medi. Yr adeg honno bydd yna blentyn ac athrawes, Vitalia, yn aros gyda ni yn Lloches. Chwech o blant fydd drosodd yr adeg honno hefyd.

Rydym yn dal i chwilio am deuluoedd fuasai'n hoffi cymryd plentyn o wlad arall i aros am fis.

Cofiwch mae hyn yn fendithiol iawn i'w hiechyd, canys mae'n rhoi dwy flynedd o'u bywyd yn ôl iddynt.

Fasech chi'n hoffi bod yn Anti, neu Taid a Nain, am ddiwrnod, neu helpu i godi'r arian i'w hedfan nhw drosodd? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Terry a Menna ar (01286) 650 168.

Diolch.

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Pryd i Bawb

Buffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:

(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi ffordio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

UN FUNUD FACH

Y RHEITHGOR

Un o fanteision annisgwyl bod yn weinidog yr Efengyl yw cael osgoi gwasanaethu ar reithgor mewn llys barn. Unwaith neu ddwy yn unig y cefais wŷs i fod ar reithgor ac yr oeddwn yn fwy na balch o gael ateb mai gweinidog oeddwn ac na chawn felly, yn ôl deddf gwlad, gyflawni'r gwasanaeth rheithgor.

Rwy'n cydymdeimlo'n fawr â phawb sy'n cael yr alwad honno, yn arbennig y rhai sy'n gorfod gwasanaethu mewn achosion anodd a phoenus. Gall fod yn gyfrifoldeb arswydus i bwysu a mesur tystiolaeth sydd yn aml yn ddryrus ac yn rhyfeddol o gymhleth ac i benderfynu a yw'r diffinydd yn euog ai peidio.

Yng ngwledydd Prydain pobl anhysbys yw aelodau'r rheithgor. Mae'n nhw'n gwneud eu gwaith yn y llys ac yna'n cilio o'r golwg. Ond nid felly yng Nghaliffornia yn ddiweddar yn dilyn achos llys Michael Jackson, lle gwelwyd aelodau'r rheithgor yn cael eu holi ar raglenni teledu am eu rhesymau dros ddyfarnu bod y canwr yn ddieuog o bob cyhuddiad a ddygwyd yn ei erbyn. Dyfarnodd y rheithgor bod Jackson yn ddieuog o'r troseddau penodol y cyhuddwyd ef ohonynt yn y llys, ond ar yr un pryd roedd sawl un ohonynt yn datgan bod Jackson fwy na thebyg wedi camdrin plant cyn hyn. Roedd o'n ddieuog, ond eto'n euog, i fwy nag un ohonynt.

Roedd dyfarniad y rheithgor yn waredigaeth i Michael Jackson, ac yn ei arbed mae'n debyg rhag dedfryd o garchar hir. Ond doedd cyfweiliadau teledu'r rheithgor fawr o gymwynas ag ef, gan eu bod yn golygu bod yr amheuron a'r gred ei fod wedi camdrin plant yn aros. Ac aros wna'r amheuron, er gwaethaf dyfarniad y llys ac ymdrechion cefnogwyr Michael Jackson i'w amddifyn ac i gyfiawnhau ei ymddygiad rhyfedd, a dweud y lleiaf.

Daw'r dydd y byddaf finnau gerbron fy ngwell, pan safaf gerbron Duw y Barnwr. Fydda'i ddim yn medru dadlau fy mod yn ddieuog. Fydd dim modd i mi fy nghyfiawnhau fy hun. Bydd y Barnwr yn gwybod i mi fethu cadw Cyfraith Duw yn berffaith. Ond caf fy nyfarnu'n ddieuog o bob trosedd oherwydd bod Iesu Grist wedi bod yn y llys o'm blaen yn derbyn cyfrifoldeb llawn am fy mhechodau i gyd.

Nid cyhuddiadau di-sail fydd yn ein herbyn ni. Ac eto, y rhyfeddod mawr fydd ein bod yn haeddiant Iesu Grist yn cael ein dyfarnu'n ddieuog o bethau yr ydym yn euog ohonynt. Cawn ein cyfri'n gwbl ac yn derfynol ddieuog o bob trosedd. A fydd na rheithgor na neb yn awgrymu'n wahanol, diolch byth am hynny!

JOHN PRITCHARD

ANTUR WAUNFAWR



Rhai o aelodau y 'North American Association of Celtic Language Teachers' wrth gofeb John Evans yn Antur Waunfawr ar 9 Mehefin.

Mae Cynhadledd Flynyddol y Gymdeithas yn cael ei chynnal ym mhob un o'r gwledydd Celtaidd yn eu tro. Tro Cymru

oedd hi eleni. Daethant i'r Antur i gael rhagor o hanes yr anturiaethwr, John Evans, ac i ymweld â'i gofeb a'r amgueddfa sydd yno i'w goffáu.

Gyda'r athrawon yn y llun mae Delyth Prys, Llywydd y Gynhadledd eleni, ac Eilir Evans o Brifysgol Bangor.

Ysgol y Waun 1876-1976

Yn ddiweddar deuthum ar draws llyfryn ardderchog Leslie Jones (cyn-Brifathro Ysgol Waunfawr) a ysgrifennodd yn 1976, ar achlysur dathlu canmlwyddiant yr ysgol.

Diddorol sylwi fod dwy ysgol wedi eu sefydlu yn yr ardal ar un amser, sef yr Ysgol Frutanaidd gan yr Anghydffurfwyr, a'r Ysgol Genedlaethol gan yr Eglwys. A diddorol sylwi hefyd, ar ôl cau'r ysgol genedlaethol yn 1871, daeth cyfnod y 'payments by results' i fodolaeth, pryd y seiliwyd taliadau i'r ysgol ar bresenoldeb ac ar arholiad mewn darllen, ysgrifennu a rhifo - i gyd yn Saesneg. Am bob plentyn a fyddai'n bresennol 200 o weithiau ac yn llwyddiannus mewn arholiad, telid 2/8c. Dylid sylwi hefyd fod popeth yn yr iaith Saesneg ac, yn log book 1878, nodwyd fod y plant o dan beth anfantais oherwydd 'this being a very Welshy neighbourhood'.

Dechreuwyd cadw cofnodion yn Gymraeg yn 1945. Achubwyd yr iaith gan Ddeddf Addysg 1902, a fu'n gyfrwng i wella cyflwr addysg, a hefyd gan fod gan yr awdurdodau lleol yn awr hawl i gymell ysgolion i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd absenoldeb yn broblem enfawr. Ni allai'r rhieni anfon eu plant i'r ysgol oherwydd tloedi ac mae dau neu dri o lythyrâu wedi eu cofnodi yn y llyfryn. Yr oedd absenoldeb hefyd ym misoedd

yr haf (fel y dengys log 17 Awst 1888) oherwydd fod angen y plant gartref i weithio. Ond nid gwaith oedd popeth. Ar 6 Mai 1904, roedd llawer yn absennol oherwydd fod 'Buffalo Bill' wedi cyrraedd Caernarfon.

Daeth trydan i'r ysgol ar 26 Mai 1936 ond ni ddechreuwyd twymo'r ysgol tan 12 Gorffennaf 1953. Ni welwyd nag athro na phlentyn ar gyfyl y lle ar 20 Ionawr 1941 na 4 Mawrth 1965, oherwydd stormydd eithriadol o galed.

Yn sicr, mae pethau wedi newid. Magwyd fy mhiant i yn Llundain a'r ysgol yn eu hannog i annerch yr athrawon (y dynion yn aml mewn crysau agored) wrth eu henwau cyntaf. Tybed beth fuasai ymateb Mr D. Idris Jones, a oedd yn brifathro pan oeddwn i yn ddisgybl yno pe buasai un o'r plant wedi ei gyfarch gyda 'Bore da, Idris.' *

Yn log ysgol y Waun am 17 Tachwedd 1905, cosbwyd naw o hogiau am luchio cerrig at rhyw fachgen anffodus a oedd yn gwerthu nionod. Ac, ar 8 Hydref 1909, roedd rhai o'r hogiau wedi ffurfio eu hunain i ddwy garfan wrth fynd a dod i'r ysgol ac yn lluchio cerrig a waldio ei gilydd. Cosbwyd llawer ohonynt.

Hwyrach nad oes newid i rai pethau.

* Mae hynny'n dwyn i gof athro yn gofyn i ryw fachgen beth oedd o yn galw ei dad - Dad, Tada, Nhad neu rywbeth arall.

'Robaitsh!' atebodd y bachgen.

J. RHYD HUMPHREYS

Cyfarfod cyn-ddisgyblion Hen Ysgol Sir Brynrefail 1900-1955

Rydym yn hyderus iawn erbyn hyn y cawn gyfarfod llwyddiannus ar Faes Eisteddfod y Faenol eleni. Eisoes mae nifer sylweddol o'r cyn-ddisgyblion, o bell ac agos, wedi cysylltu â ni i ddweud eu bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at y cyfarfod.

Bellach, gallwn ddweud yn bendant mai mewn rhan o babell Amgueddfa Lechi Cymru (gwaelod gwaith y chwarel gynt) am 2.00 o'r gloch bawn iau y Steddfod y byddwn yn cyfarfod, ac yno tan 4.00 o'r gloch. Dywedwch wrth eraill am hyn os y gallwch.

Rydym yn ddyledus iawn i Dr Dafydd Roberts, Pennaeth yr Amgueddfa, a Haydn Lewis, cyn-ddisgybl ac o Frynrefail, am eu haelioni a'u parodrwydd i hwyluso ein trefniadau fel hyn. Diolchwn o waelod calon i chwi. Fe leolir Pabell yr Amgueddfa ar y maes, rhwng y Babell Lân a Phabell Cyngor Sir Gwynedd.

Dyma rifau ffôn y pwyllgor o bump:


Mair a Huw Gwynfa Roberts: (01286) 830655;

Owen Griffith: (01286) 674503;

Eifion Hughes: (01248) 410474;

Ifan Wyn: (01248) 722312.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol


Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

CROESAIR GORFFENNAF



Gweithiau 4 a 38 ar draws ydi'r 5 ateb sydd heb gliwiau iddynt.

Ar Draws:

1. Ysgrifennu neu ddweud y llythrennau mewn gair (6)
10. Yr awyrgylch sydd yn dechrau wythnos y bandiau roc! (4)
11. Pan mae Idwal yn feddw, mae'n ddyn drwg iawn! (5)
12. Cael dianc rhag talu'r ddirwy? (6)
14. Mae'r man lle bydd yr adar yn dodwy yn llawn! (6)
15. Torch neu gadwyn addurnol (5)
16. Cyhuddo yn wyneb ei ormeswr (4)
19. Lle ysgithrog lle mae ceir a rhan o'r eglwys wedi eu malurio! (7)
20. Llinellau mewn nodiant cerddorol (5)
26. Tyrd o'r de!! (4)
27. Cwr isaf hogia'r Aran? (5)
32. Metelau wedi eu cymysgu sy'n creu hwn (4)
33. Un glandeg yn eglwys y llan! (5)
34. O'i law a'i geg yn gymysg ceir lle heb ddim byd arall ynddo (6)
36. Estronol neu anarferol (6)
39. Cyflwr yr Arglwyddes honno wrth farchogaeth drwy Goventry! (4)
40. Trosglwyddo gwres (8)
41. Cefnogwyr y rhai sy'n codi arian at achosion da? (6)

I Lawr:

2. Peth dychmygol yw arf Lea! (6)
3. Un sy'n gwadu athrawiaeth y Drindod (7)
5. Chwalu lard am helaethrwydd! (6)
6. Tudalennau cofnodi (9)
7. Yn berthynol i offeiriad mewn eglwys gadeiriol (8)
8. Cusan - sut bynnag yr edrychwch chi arni! (3)
9. Yn hael a charedig, heb ffurfio dwrn (9)

17. Plant angylaidd ... (9)
18. ... gyda pheth wedi ei wau? (3)
22. Llwyrymwrthodwr (9)
23. Mae gwneud synnwyr o gorlan oes yn anorod ... (9)
24. megis corlan Gerlan! (3)
25. Gwelleifiwr (8)
29. Ffrwyth meddal yr arferid ei gael mewn blwch adeg y Nadolig (7)
30. Edrych ar beth a bod yn ymwybodol ohono (6)
31. Yr hyn sy'n ein genau i'n galluogi i gnoi (6)
37. Mae'r mymryn lleiaf yn bwysig mewn priodas! (3)

Ymddiheuriad cyn dechra'!

Am yr eildro mewn cyfnod o ychydig fisoedd, fe darodd y 'dyslexia', (neu henoed) fi.

Wrth geisio rhoi'r gair ALLEGRO yn 18 i lawr, fe drodd rhywsut neu gilydd yn ALLERGO! A do - mi orffenaais y croesair o gwmpas y gair anghywir.

Diolch o galon i'r deunaw wnaeth sylweddoli beth oedd wedi digwydd a gyrru eu hatebion ataf - rhai gyda sylwadau digon profoclyd, ond haeddiannol. Ymddiheuriadau i'r rhai ohonoch a fethodd gystadlu oherwydd iddynt feddwl, mae'n debyg, mai arnynt hwy oedd y bai fod y sgwâr ddim y gweithio.

Derbyniais atebion gan Nansi Davies, Rhuthun; N. Hughes, Cwmyglo; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Pat Owen, Caerfyrddin; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; Olwen Owen, Nan Owen, Moreen Lennon ac A. Hughes, Llanberis; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon;

CANTORION COLIN JONES

yn cefnogi Sefydliad Prydeinig y Galon
gyda

Sharon Evans, Soprano
Dai Jones, Llanilar

Nos Sadwrn, Gorffennaf 23, 2005
7.30 pm
yn Neuadd PJ, Bangor


Tocynnau: £7

Gareth Oliver: 01248 601 206

H. O. Hughes, Pwllheli a Tegid Roberts, Llanrug.

Mair Evans, Gwynle, Ffordd Bethel, Caernarfon ydi enillydd y mis. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Gorffennaf, gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 22 Awst.



Tawelwch Meddwl

I lanhau a thwtio beddau, ailadeiladu, peintio â phaent neu aur yn y llythrennau - yna cysylltwch â

Hywyn ar 01286 830150

neu 07810 522303

Gwasanaeth lleol a sylw arbennig.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel
Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
- rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Cefnogwch ein Hysbysebwy



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

CHWARAEON

Rhedeg Mynydd

Daeth Cyngrhair Rasio Mynydd Nos Fawrth i ben yn Llanberis gyda'r seithfed ras yn y gyfres i fyny ac i lawr Moel Eilio. Alun Vaughan, Llanberis, oedd yn fuddugol ar y noson, a Dylan Jones, Deiniolen, yn ail.

Felly hefyd oedd y safleoedd ar ddiwedd y gyfres, gyda Richard Roberts o Ddyffryn Ogwen yn cael y blaen ar Dyfed Thomas o Lanrug, ac atal hogia bro'r 'Eco' rhag ennill y tri safle cyntaf.

Yn y categorïau eraill, daeth Jayne Lloyd o Bontrug yn gyntaf yn adran y merched, gyda Jenny Hemming o Lanberis yn ail ac Alison Donnelly o Ddinorwig yn drydedd. Maggie Oliver o Ddinorwig enillodd yr adran i ferched dros hanner cant oed. Roedd Arwel Lewis o Fethel yn ail agos yn yr adran i ddynion dros ddeugain oed.

Mae'r gyfres wedi profi'n hynod o boblogaidd dros y blynyddoedd, ac amryw o redwyr wedi cael eu profiad cyntaf o redeg mynydd yn un o rاسus y gyfres, cyn mentro i rاسus caletach ar fynyddoedd Eryri a thu hwnt. Eleni roedd cant ac un ar ddeg o redwyr wedi rhoi cynnig ar un neu fwy o'r saith ras.

Llawer o ddiolch i Mike Blake am drefnu'r gyfres ac i bawb a fu'n gyfrifol am drefnu rاسus unigol a stiwardio. Roedd yn galonogol gweld cymaint o ieuencid yn cymryd rhan eleni. Diolch hefyd i gwmni 14th Peak o Gaernarfon am noddi'r gyfres mor hael.

Croeso 'nôl hefyd i Colin Jones o Bontrug, sydd wedi dychwelyd o gyfnod gwaith yn America. Colin, wrth gwrs, oedd y Cymro cyntaf i ennill Ras yr Wyddfa, ac mae'n debyg mai honno yw'r ras lleol nesaf fydd yn mynd â sylw rhedwyr o bell ac agos. Mae'r ras yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg ar hugain oed eleni, a bydd cryn gystadlu am y fraint o gael ennill y ras ar ddydd ei phen-blwydd. Tybed a ddaw Cymro lleol arall i'r brig eleni?

Cofiwch!

Ie, Tlws yr Eco, 2005. Mae'r RHAN FWYAF o dimau wedi cofrestru erbyn hyn. Mae rhai o'r 'selogion' yn dal i lusgo'u traed. Cofiwch y dyddiadau.

Y bêl-droed ar:

Gorffennaf 11 (-11) ym Methel;

Gorffennaf 12 (-9) yn Llanrug;

Gorffennaf 18 (-7) yn Llanrug.

Bydd y bêl-rwyd i gyd ar un noson, sef **Gorffennaf 18**, yn Ysgol Llanrug. Welan ni chi yno!

I Ffau'r Llewod

Gwn o brofiad mai peth annodd - ac annoeth - yw ceisio dyfalu canlyniadau gwahanol ornestau ym myd y campau. Rwyf yn ysgrifennu'r llith yma cyn y prawf rygbi cyntaf yn Seland Newydd. Mae'r 'gwybodusion' eisioes yn hogi eu cleddyfau i ymosod ar Clive Woodward a'i obsesiwn o ddibyniaeth ar rym y Saeson. Wn i ddim a lwyddodd ei strategaeth.

Un peth sydd yn fy nhristáu yw'r ddelwedd y mae'r Llewod yn ei arddangos. Yng nghystadleuaeth y Chwe Chenedl olaf, roedd Cymru, Iwerddon a'r Ffrancwyr wedi datblygu y gêm fywiog, gyflym agored. Heb adnoddau dynol tebyg, roedd yr Albanwyr hefyd yn ceisio meithrin y dull yma. Arhosodd Lloegr yn yr hen ffordd o frwydro ymlaen ymysg y blaenwyr. Trist meddwl mai dyma'r arddull sy'n cael ei arddangos hyd yn hyn ar y daith. Cymharol isel yw'r nifer o geisiadau a sgoriwyd a di-fflach yw chwarae'r olwyr. Anaml mae'r chwaraewyr cyfrwys, ffrwydrol fel Shane Williams, wedi ymddangos. Rwyn siŵr y bydd nifer o'r Cymru sydd ar y daith yn edrych i brofi sawl pwynt ym mhencampwriaeth y flwyddyn nesaf.

Dan undeb eu Prydeindod - ai unlliw

Yw cynllun y Llewod;
Boios, os gwywa'r 'rhosod',
Ar ba rai bydd bai yn bod?

Angen Canlyniad

Yn ddiweddar cymerais ran ar *Taro'r Post* ynglŷn â'r twf sylweddol sydd ym mhoblogrwydd y dull 20/20 o'r byd criced. Mae'r dull wedi denu cryn sylw a chefnogaeth, boed yn y meysydd neu yn ein cartrefi, drwy deledu lloeren. Byrdwn yr holi gan Dylan Jones oedd a fuasai'r dull yma o'r gêm yn tanseilio poblogrwydd y dull confensiynol o gemau pedwar diwrnod rhyng-sirol, a'r gemau prawf pum niwrnod? Dyma'r dulliau sy'n ffurfio traddodiad a hanes y gêm.

I ni yn y gogledd, Bae Colwyn yw'r gyrchfan yn ystod ymweliadau Morgannwg - tîm Cymru. Dros y blynyddoedd cafwyd llawer mwy o gefnogaeth i'r gêm undydd. Y mae yma elfennau mwy cymdeithasol a'r prif wahaniaeth yw fod y gwyliwr yn cael 'canlyniad' ar ddiwedd y dydd. Oes y digwyddiad cyflym, llawn cyffro yw hi heddiw. Gorau i'r gamp hefyd os yw'r digwyddiad yn chwyddo'r coffrau. Ni all

Cydnabod Nawdd



Tybed a fydd tîm dan 11 Llanrug Coch yn gwisgo eu lifrau newydd yng nghystadleuaeth y Tlws eleni. Mae'r tîm yn cydnabod haelioni John Trevor, perchennog garej Hafod-Elim Peugeot. Gwelir y tîm gyda'u dau hyfforddwr,

Wendy Jones ac Iwan Roberts, a John Trevor. Smart iawn.

Gyda llaw, llongyfarchiadau i Wendy ar gyrraedd pen-blwydd arbennig y Philosan yn ddiweddar. Yn un o selogion Anfield, pwy arall ond Llanrug COCH, fuasai hi yn reoli.

Morgannwg, fwy nag unrhyw sir arall, gynnal eu gofynion ariannol drwy ddibynnu ar elw'r 'giât'.

Yr hyn sy'n cadw trwynau sawl sir uwchben y dŵr yw'r rhaniadau o elw'r gemau prawf a chyda Awstralia ym Mhrydain eleni, bydd disgwyl tipyn o elw. Yna cyfyd yr hen ddadl: pam rhoi cyn gymaint o'r arian yma i'r gêm broffesiynol, ar drael hyrwyddo gwreiddiau'r gêm.

Am fod hyd yn oed yr arian 'prawf' yn annigonol, cawn y cyfresi undydd cyn neu ar ôl y prif gyfres. Meysydd llawn, mwy o arian!

I'r gwagle ariannol, daeth y dull 20/20 a dyma ateb gweddïau llawer. Mae'r meysydd yn llawn, mae gwahanol adloniant ar y ffin, ac mae'r camerâu teledu yno. Dim problem denu nawdd pan mae llygaid y camera yn danfon y darluniau masnachol i filiynau o dai. I'r gymysgfa, Lloegr yn chwalu Awstralia mewn canlyniad annisgwyl, ac mae'r sgript yn ddi-guro.

Ond beth yw, neu fydd y dylanwadau? Mae'n siŵr fod yr elfennau ymosodol i'r gêm am apelio i'r ifanc. Fel hyfforddwr, gwn o brofiad bod mwy o ddiddordeb ac awch gan y plant mewn taro'r bêl yn hytrach na meithrin y sgiliau amddiffynnol o fatio. Drwy brofiad y daw y plant i sylweddoli bod mwy o gyfle i fod allan drwy daro'r bêl i'r awyr. Ni ellir sgorio rhediadau yn yr ystafell wisgo!

Mae'n siŵr bod 20/20 yn arf ac adnodd i sawl hyfforddwr i ddenu'r ieuencid. Ond dyna'n unig yw hi. I ganfod gwir anian y gêm, mae amddiffyn ac

ymosod yn cyd-gerdded.

Un dylanwad sicr yw'r cynnydd sylweddol yn yr ergydion dros y ffin. Ddeugain mlynedd yn ôl, ar ddechrau fy ngyrfa, tua 20% o gyfanswm rhediadau batiad ddeuai fel hyn. O Sadwrn i Sadwrn ym mhrif Gynghrair y Gogledd, rwy'n amcangyfrif fod y ganran bresennol tua 60%. Gwelaf yn aml fatiadau byr o 20 rhediad oddi ar nifer fechan o belenni. Anaml heddiw y gwelir batiwr yn 'cario'i fat' drwy fatiad.

Y dull yn y prif adran yw gêm o 110 pelawd, wedi ei rannu 58/52. Mae pwyntiau bonws am gymryd wicedi a sgorio rhediadau ac am gau y batiad wedi 50 pelawd.

Yn y gêm griced mae'r canlyniad 'gêm gyfartal' yn rhan allweddol. I ennill yn gyflawn rhaid yw bowlïo'r tîm arall allan yn gyfangwbl. Mae rhai clybiau yn achwyn am y drefn, fod y gêm yn 'rhy hir' o ran amser a maint pelawdau, meddent. Pam ddim 50 pelawd yr un, a'r tîm gyda'r mwyaf o rediadau yn ennill? Os ydy o'n ddigon da i'r gêm broffesiynol, pam ddim i bawb, yw eu dadl? Dim gemau cyfartal. Dim angen bowlïo tîm allan. Dim capten meddylgar, yn newid ei fowlwyr a safleoedd maes yn gelfydd. Dim ond cledro a chledro, a'r rhediadau cyflym a'r gosod y bêl yn y 'bylchoedd' yn grefft sy'n diflannu.

I mi, y gêm brawf yw y 'wir' ymgorfforiad o 'frwydr' a her y gêm. Yn anffodus yn erbyn llais yr ieuanc, y 'gwyliwr' yn hytrach na'r cefnogwr, ac arian y teledu, y gêm fer fydd yn rheoli ymhen ychydig flynyddoedd.